Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNLLUNIO CYMRU GYFAN 2014-15

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG28285 ISBN Digidol: 978 1 4734 6164 2

## CYFLWYNIAD

**Carl Sargeant AC – Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**



Mae blwyddyn gyllidol 2014 wedi bod yn gyfnod o newid cadarnhaol i'r system gynllunio yng Nghymru.  Cyflwynwyd y Bil Cynllunio cyntaf erioed i Gymru yn Hydref 2014, ac roedd y mewnbwn a gafwyd gan randdeiliaid yng Nghymru yn gymorth mawr wrth lunio a mireinio'r Bil yn ystod y broses craffu yn y Cynulliad.

Roedd y mewnbwn hwnnw wedi cyfrannu at ddiffinio system gynllunio i Gymru sy'n ceisio cwrdd â'n hanghenion a dyheadau penodol.  Rwyf yn awyddus i gynnal y momentwm o'r mewnbwn a gafwyd gan randdeiliaid o bob math er mwyn hyrwyddo newid cadarnhaol.

Daeth y Bil yn Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ym mis Gorffennaf, ac mae'r gwaith ar ei gweithredu'n symud ymlaen yn gyflym. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno pwerau newydd i greu gwasanaeth cynllunio mwy rhagweithiol a hwylus, ond nid hon yw'r unig ffordd o sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu gwasanaethau.  Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'r holl randdeiliaid gydweithio'n dda i rannu gwybodaeth a dyheadau.

Mae'r Adroddiadau Perfformiad Blynyddol a gyflwynwyd i mi ym mis Tachwedd 2015 yn rhoi llinell sylfaen ar gyfer ystyried effaith a chanlyniad y newidiadau a gafwyd mewn deddfwriaeth, a sut y maent yn effeithio ar weithrediad gwasanaethau wrth eu darparu'n uniongyrchol.  Gellir defnyddio'r wybodaeth hon wrth ystyried, datblygu a mireinio newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth yn y dyfodol.

Mae awdurdodau cynllunio lleol yn wynebu her sylweddol wrth ddarparu'r gwasanaeth statudol hwn yng nghyd-destun y ffrwyno parhaus ar gyllidebau.  Ond mae'r egni a brwdfrydedd sydd wedi'u dangos gan awdurdodau cynllunio lleol yn eu Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol wrth ymdrechu i ddarparu gwasanaethau gwell i ddinasyddion yng nghyd-destun y cyfyngiadau hyn yn drawiadol.

Rwyf yn parhau'n ddiolchgar am gefnogaeth rhanddeiliaid, nid yn unig drwy eu hymdrech i sicrhau system gynllunio ragorol sy'n darparu'r gwasanaethau gorau posibl, ond hefyd drwy gymryd rhan yn y broses gydweithredol barhaus o wella gwasanaethau.

**Carl Sargeant AC**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Mawrth 2016**

## 1 – Y Cyd-destun

**Adroddiadau Perfformiad Blynyddol – Cefndir**

Roedd y sylfaen dystiolaeth sy’n sail i’r newidiadau yn system gynllunio Cymru, a gyflawnwyd drwy Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, wedi arwain at y farn gyffredin bod lle i wella’r system bresennol er mwyn gwasanaethu defnyddwyr yn well.

Yn ogystal ag ymgynghori ar gynigion i’w cynnwys yn y Bil Cynllunio (Cymru) drafft ym mis Rhagfyr 2013, roedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori hefyd ar gyfres o gynigion i hyrwyddo newid mewn diwylliant a dull cydweithredol o ymgyrraedd at safonau gwasanaeth, i fynd law yn llaw â’r newidiadau arfaethedig mewn deddfwriaeth.

Roedd yr Ymgynghoriad ar Gynllunio Cadarnhaol yn cynnig cyflwyno cyfres o ddangosyddion ar gyfer mesur safonau gwasanaeth mewn ffordd gymaradwy; newid cyfeiriad y system gynllunio er mwyn sicrhau canlyniadau o ansawdd da i’w defnyddwyr; a meithrin cydweithio, cydweithredu a chydrannu arferion da rhwng rhanddeiliaid y system gynllunio .

Roedd y fframwaith ar gyfer mesur a chofnodi perfformiad wrth ddarparu gwasanaethau cynllunio ledled Cymru, a gynigiwyd yn yr Ymgynghoriad ar Gynllunio Cadarnhaol, yn cynnwys:

- Fframwaith Perfformiad, ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad ar sail dangosyddion a thargedau y cytunwyd arnynt â rhanddeiliaid gan ddefnyddio data a gesglir yn chwarterol;

- Adroddiad Perfformiad Blynyddol, wedi’i baratoi gan awdurdodau cynllunio lleol, yn rhoi crynodeb o’u perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol, ac yn nodi meysydd lle cafwyd yr arfer gorau a chamau i’w cymryd er mwyn gwella os oedd angen;

- Adroddiad Perfformiad Blynyddol cronnol, wedi’i baratoi gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi darlun strategol o faterion a ffactorau cyffredin a wynebir wrth ddarparu gwasanaethau lleol ac yn disgrifio meysydd gwaith ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â dilyn a rhannu arferion da.

Canlyniad arfaethedig y mesurau hyn yw:

- Rhoi darlun clir a chywir i’r holl randdeiliaid o’r lefelau gwasanaeth a ddarperir gan awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru, wedi’u mesur ar sail set o ddangosyddion a thargedau perfformiad sydd wedi’i datblygu a’i chytuno â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

- Nodi lle mae safonau gwasanaeth awdurdodau cynllunio lleol yn is na’r hyn sy’n dderbyniol, fel y gellir cyflwyno mesurau cymorth, os yw’n briodol, ac os bydd hyn yn methu, ymyrryd i wella gwasanaethau lleol.

- Nodi meysydd lle ceir arfer da, i gymell awdurdodau cynllunio lleol i rannu syniadau da.

- Annog awdurdodau cynllunio lleol i fabwysiadu dull myfyriol ar gyfer hunanwella yng nghyswllt darparu gwasanaethau'n lleol, drwy broses yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

- Rhoi'r gallu i ffurfio barn gyffredin am y materion gweithredol sy'n wynebu awdurdodau cynllunio lleol, mesur yr effaith o newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth ar weithrediadau, a darparu cymorth os yw'n briodol i hwyluso newid cadarnhaol.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad cronnol o sefyllfa'r gwasanaeth cynllunio a ddarperir gan randdeiliaid ledled Cymru, ac o'r materion a chyfleoedd sy'n wynebu'r rheini sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth hwnnw.

Er bod Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2014-15 yn ymwneud ag awdurdodau cynllunio lleol a Llywodraeth Cymru yn benodol, mae rhan i'w chwarae gan holl randdeiliaid y gwasanaeth cynllunio i sicrhau bod y system yn gweithio'n dda. Byddwn ni hefyd yn adrodd ar rôl ymgyngoreion statudol, a'u hymateb i'r dyletswyddau a roddwyd iddynt yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, mewn blynyddoedd i ddod.

## Adroddiadau Perfformiad Blynyddol – Gweithredu

Hon yw'r set gyntaf o Adroddiadau Perfformiad Blynyddol, ac mae'n rhoi adolygiad o'r darparu ar wasanaethau cynllunio yn ystod blwyddyn ariannol 2014-2015. Roedd awdurdodau cynllunio lleol wedi cyflwyno eu Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol cyntaf i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2015.

Roedd yr amserlen ar gyfer cyflwyno APBau wedi'i phennu fel ei bod yn dilyn cyflwyno'r Adroddiadau Monitro Blynyddol ar y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Tachwedd 2015, gan fod y rhain yn gallu cyfrannu at yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol. Er mwyn sicrhau bod Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn cael eu cyflwyno'n amserol a bod y camau gweithredu sydd ynddynt yn cael eu hyrwyddo, rydym yn bwriadu pennu dyddiad cynharach ar gyfer eu cyflwyno yn y flwyddyn adrodd nesaf, i'w gysoni â'r dyddiad ar gyfer cyflwyno AMBau. Bydd nifer o fanteision i hyn, gan gynnwys symleiddio prosesau'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer cymeradwyo adroddiadau.

Penodwyd Grŵp Cynghorol ar Gynllunio Cadarnhaol gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ym mis Tachwedd 2015, i ddarparu cyngor ar anghenion dysgu ac arferion da. Bydd esiamplau o'r Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn cael eu hyrwyddo gan y Grŵp, ac mewn partneriaeth â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'u defnyddio, os yw'n briodol, i gyfrannu at waith a wneir gan awdurdodau cynllunio lleol i wella eu perfformiad.

## Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am y Fframwaith Perfformiad Cynllunio yn:

- Mae tabl y Fframwaith Perfformiad ar gyfer 2014-15 yn Atodiad A. Mae mynegai o'r APBau a gyhoeddwyd gan awdurdodau cynllunio lleol yn Atodiad B.

- Mae ein tudalen we ar y Fframwaith Perfformiad yn nodi'r targedau presennol a'r adroddiadau diweddaraf am berfformiad sydd wedi'u cyhoeddi.

- Mae ein tudalen we ar yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys y dangosyddion perfformiad a'r targedau yr adroddir arnynt a chyfarwyddyd ynghylch fformat yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a sut i'w gynhyrchu, a bydd Adroddiadau Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan ar gael yma hefyd.

## 2 – Gwasanaethau Cynllunio a ddarperir gan Lywodraeth Cymru

**Busnes Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru**

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio wedi bod yn gysylltiedig â datblygu, drafftio a mireinio Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, wrth iddi fynd drwy'r gwahanol gamau craffu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd y Ddeddf ei hun wedi'i datblygu drwy ystyried sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr, ac roedd drafft ohoni wedi'i gynnwys yn yr Ymgynghoriad ar Gynllunio Cadarnhaol yn Hydref 2013. Cyflwynwyd y Bil ym Medi 2014, a chraffwyd arno gan y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, cyn cynnal dadl arno a'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn Cyfarfod Llawn, ym Mai 2015. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf ym mis Gorffennaf 2015.

Cafwyd gweithgarwch deddfwriaethol ac anneddfwriaethol i ategu'r gwaith ar y Ddeddf. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o ymarferiadau ymgynghori o fewn y cyfnod adrodd. Y meysydd gwaith oedd:

- Cysyniadoli Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd, a fydd yn amlinellu polisïau cenedlaethol ar faterion sy'n ymwneud â seilwaith a chynllunio defnydd tir;
- Y cyd-destun ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol er mwyn ystyried datblygu polisïau ar sail strategol;
- Gwelliannau ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn gwella a hyrwyddo'r broses o gynhyrchu a mabwysiadu cynlluniau datblygu;
- Cyflwyno'r weithdrefn ymgeisio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol er mwyn gallu ystyried datblygu strategol a seilwaith ar sail genedlaethol;
- Mireinio'r Broses Rheoli Datblygu i wella perfformiad y system;
- Diwygio polisi cynllunio a chyngor technegol cenedlaethol i ategu'r newidiadau eraill hyn.

Mae rhagor o fanylion am Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a gwaith cysylltiedig yn ein Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol.

**Penderfyniadau cynllunio a wneir gan Lywodraeth Cymru**

Mae rôl statudol gan Weinidogion Cymru yn y broses gynllunio, sef ystyried apelau. Cynhelir y gweithgarwch hwn gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Gweinidogion Cymru, er y gall Gweinidogion Cymru ddewis penderfynu ar apêl eu hunain mewn rhai achosion. Mae rhagor o fanylion am hyn isod.

Mae pwerau hefyd gan Weinidogion Cymru sy'n eu galluogi i adfer penderfyniad cynllunio oddi wrth awdurdodau cynllunio lleol mewn amgylchiadau penodol. Gwneir defnydd o'r broses hon ar ôl gofyn am hynny a dyma'r hyn a elwir yn "galw cais i mewn" i'w benderfynu.

Bydd yr achos ei hun yn cael ei ystyried gan swyddogion, a chyflwynir argymhelliad ar y llwybr i'w ddilyn ym mhob achos i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Os bydd y Gweinidog yn penderfynu galw'r cais i mewn, yna bydd yn cael ei brosesu gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru, a bydd Arolygydd Cynllunio yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru.

Mae ein targedau perfformiad wedi'u seilio ar yr un rhagdybiaeth â honno ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio gan awdurdodau cynllunio lleol; hynny yw, bod rhai achosion yn fwy cymhleth na'i gilydd ac yn galw am fwy o waith a mwy o amser i'w hystyried, ond y dylai 80% o'r holl achosion gael eu trafod fel arfer o fewn cyfnod y targed. Rydym hefyd wedi defnyddio bandiau "gweddol" a "gwella" sy'n adlewyrchu'r targedau a osodwyd ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio gan awdurdodau cynllunio lleol. Mae'r tabl isod yn rhestru'r mathau o gais, y targedau perfformiad ar eu cyfer, a pherfformiad Llywodraeth Cymru ar y targedau hynny, ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2014/15.

| **MATH O ACHOS** | **DANGOSYDD**<br>**Da – >80**<br>**Gweddol – 60-80**<br>**Gwella – <60** | **CYFANSYMIAU** |
|---|---|---|
| Achosion Talu Costau<br>o fewn 84 o ddiwrnodau | Achosion mewn pryd | **4 o 5** |
| | % mewn pryd | **80** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodau | **61.7** |
| Penderfyniadau ynghylch<br>galw ceisiadau i mewn<br>o fewn 21 o ddiwrnodau | Achosion mewn pryd | **35 o 41** |
| | % mewn pryd | **85** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodau | **26.9** |
| Achosion Cyfarwyddiadau Hysbysu<br>o fewn 21 o ddiwrnodau | Achosion mewn pryd | **7 o 7** |
| | % mewn pryd | **100** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodau | **17.8** |
| Achosion Apelau a Adferwyd a Galw<br>Ceisiadau i Mewn<br>o fewn 84 o ddiwrnodau | Achosion mewn pryd | **6 o 10** |
| | % mewn pryd | **60** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodau | **95** |
| Cadarnhau Gorchmynion Prynu<br>Gorfodol<br>o fewn 84 o ddiwrnodau | Achosion mewn pryd | **1 o 1** |
| | % mewn pryd | **100** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodau | **78** |
| Ceisiadau am Sgrinio ar gyfer Asesu<br>Effeithiau Amgylcheddol<br>o fewn 21 o ddiwrnodau | Achosion mewn pryd | **14 o 20** |
| | % mewn pryd | **70** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodau | **24.4** |
| Cadarnhau Caniatâd Adeilad<br>Rhestredig a Chaniatâd Ardal<br>Gadwraeth<br>o fewn 84 o ddiwrnodau | Achosion mewn pryd | **31 o 32** |
| | % mewn pryd | **97** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodau | **60.5** |
| Ceisiadau o dan Ddeddf Trafnidiaeth<br>a Gweithfeydd<br>o fewn 112 o ddiwrnodau | Achosion mewn pryd | **0 o 0** |
| | % mewn pryd | **Amherthnasol** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodau | **Amherthnasol** |

**Ffigur 1 – Ystadegau Perfformiad Llwyth Achosion Llywodraeth Cymru**

Penderfynodd y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ar 98 o'i 116 o achosion o fewn cyfnod y targed, sef canran gyfartalog o 84.4%. Mae'r amseroldeb wrth benderfynu'r achosion hyn yn cyrraedd y targedau a bennwyd gan mwyaf, er ein bod yn cydnabod bod oedi wrth brosesu nifer bach o achosion cymhleth wedi cael effaith ar faint sampl bach y llwyth achosion, ac rydym wedi cymryd camau i ddelio â hyn. Er enghraifft, yn Chwarter 1 2014/15, roeddem wedi ystyried 9 cais am alw ceisiadau i mewn a phenderfynwyd ar 7 o'r rheini o fewn 21 o ddiwrnodau. Dim ond 2 a oedd wedi'u penderfynu ar ôl y targed perfformiad o 21 o ddiwrnodau; roedd yr achosion hyn wedi ystumio'r amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu'r holl geisiadau am alw penderfyniadau i mewn o fewn y chwarter, i 33.4 o ddiwrnodau.

Roedd achosion wedi'u penderfynu o fewn cyfnodau byrrach na'r rhai a gofnodwyd. Mae'r broses ar gyfer trafod achosion wedi'i symleiddio o ganlyniad i arferion cofnodi gwell, ac mae gwell defnydd o ddulliau TGCh i logio, prosesu a monitro achosion, gan gynnwys cynhyrchu a monitro ystadegau am berfformiad, wedi sicrhau bod y data'n rhoi darlun mwy cywir o berfformiad yr Arolygiaeth Gynllunio dros amser. O ganlyniad i hyn, mae'r perfformiad ar yr holl ddangosyddion hyn wedi gwella'n raddol yn ystod y flwyddyn ariannol.

Rydym hefyd wedi cynnal adolygiad o'r broses ar gyfer achosion Asesu Effeithiau Amgylcheddol, ac wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddelio ag achosion i Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Bydd yr achosion hynny sy'n aros i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru yn cael eu penderfynu drwy weithdrefn fewnol newydd a mwy syml.

Er bod y ffigurau uchod yn dangos ein bod wedi delio ag 84.4% o'r achosion hyn o fewn 21 o ddiwrnodau, credwn fod modd gwella ar hyn a byddwn yn parhau i geisio gwella'r perfformiad ymhellach, yn dilyn adolygiad mewnol o'r broses galw i mewn.

**Penderfyniadau cynllunio a wneir gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru**

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio (PINS) yn asiantaeth weithredol i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'n cynnal archwiliadau cyhoeddus annibynnol ar gynlluniau datblygu cyn eu mabwysiadu. Yn ogystal â hyn, mae PINS yn ystyried apelau gan ymgeiswyr yn erbyn penderfyniadau i wrthod caniatâd cynllunio, neu yn erbyn amodau sydd wedi'u gosod ar ganiatâd cynllunio wrth ei gymeradwyo, ac apelau yn erbyn camau gorfodi am dorri rheolaeth gynllunio.

Arolygiaeth Gynllunio Cymru sy'n darparu'r gwasanaethau uchod yn benodol yng Nghymru. Mae'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n adrodd i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar ei pherfformiad ar ddarparu gwasanaethau. Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru hefyd yn cyfrannu i adroddiad blynyddol PINS Cymru a Lloegr, ac mae crynodeb isod o'r cyfraniad hwnnw mewn perthynas â Chymru.

Perfformiad ar dargedau Gweinidogol a chorfforaethol

Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru wedi parhau i alw ar yr arbenigedd proffesiynol a'r adnoddau arolygu ychwanegol sydd ar gael yn y pencadlys ym Mryste. Mae hyn yn gosteffeithiol ac yn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gyson ac o ansawdd da. Ymysg manteision eraill, gellir cael gwasanaethau gan dimau yn y pencadlys ym Mryste ym meysydd cyllid, adnoddau dynol a TG.

Roedd Arolygiaeth Gynllunio Cymru wedi parhau i gyrraedd y targed tynnach o 85% ar gyfer penderfynu ar apelau cynllunio a gorfodi a gyflwynwyd drwy lythyr.  Roedd y llwyth gwaith cyfan yn 2014-15 yn llai nag yn 2013-14, a chyfanswm yr apelau a gymerwyd oedd tua 1,040 o'i gymharu ag ychydig mwy na 1,100 yn y flwyddyn flaenorol.

Mabwysiadwyd dau gynllun datblygu lleol yn 2014-15 (Sir Gaerfyrddin a Chasnewydd). Roedd dau archwiliad, un yng Nghaerdydd ac un yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn.

O ran ansawdd, mae 99.5% o'r penderfyniadau gan arolygwyr wedi'u cyhoeddi heb gael cwyn a gyfiawnhawyd neu her gyfreithiol yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â tharged o 99%. Ym maes gweinyddu, roedd 99.3% o'r gwaith heb wallau o'r fath.

Roedd Cyfarwyddwr Cymru wedi cwrdd ag aelodau pwyllgorau cynllunio ym mhob un o'r awdurdodau cynllunio lleol, i gyflwyno gwybodaeth a rhoi cyfle iddynt ddysgu mwy am rôl yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae'r Cyfarwyddwr wedi manteisio ar gyfleoedd yn ystod ei ymweliadau i annog awdurdodau i gydweithio â rhannu'r arferion gorau.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd â'r is-adran noddi yn Llywodraeth Cymru. Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru wedi parhau i hyrwyddo amcanion y Llywodraeth, gan gydweithio'n agos â swyddogion i'w helpu i gyflawni eu hagenda ar ddiwygio'r system gynllunio.

Staff

Er mwyn cwrdd â disgwyliadau cwsmeriaid, mae arolygwyr a staff mewn swyddfeydd yn gweithio mewn ffordd hyblyg. Mae profiad a sgiliau a ddysgwyd yn cael eu defnyddio'n aml mewn rhannau eraill o'r busnes. Darperir hyfforddiant arbenigol penodol i arolygwyr a staff mewn swyddfeydd yn ôl yr angen. Bydd uwch-arolygwyr yn cefnogi ac yn mentora arolygwyr i ehangu eu profiad.

Mae datblygiad proffesiynol swyddogion cynllunio yn cael ei hyrwyddo a chynigir cyfleoedd iddynt symud ymlaen yn eu gyrfa broffesiynol. Maent yn cymryd mwy o ran mewn gwaith ar Gynlluniau Datblygu Lleol ac maent wedi ymgymryd â gwaith newydd yn ddiweddar oddi wrth Lywodraeth Cymru.  Mae aelodau staff sy'n siarad Cymraeg wedi cymryd rhan mewn ymweliadau safle i gynorthwyo arolygwyr lle'r oedd apelwyr yn siaradwyr Cymraeg a lle nad oedd yn bosibl dyrannu arolygydd Cymraeg ei iaith.

Gwelliant parhaus

Roedd deddfwriaeth a wnaed gan Lywodraeth Cymru wedi dod i rym yn ystod y flwyddyn a oedd yn gosod cynlluniau peilot y Gwasanaeth Apeliadau Deiliaid Tai a'r Gwasanaeth Apeliadau Masnachol ar sail ffurfiol. Cyflwynwyd y pŵer i'r Arolygiaeth Gynllunio benderfynu'r weithdrefn hefyd, ac mae hyn wedi rhoi buddion o ran arian ac amser.

Yn ystod y flwyddyn mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru wedi ymgymryd â gwaith y gellir ailgodi tâl amdano i wahanol is-adrannau polisi yn Llywodraeth Cymru ac wedi darparu arolygwyr i ddelio ag ymholiadau ynghylch gorchmynion prynu gorfodol gan lywodraeth leol.

Mae'r dull o reoli gwaith achosion yn Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn rhoi'r gallu i gyhoeddi'r holl ddogfennau apelio ar y Porth Gwaith Achosion Apelau fel eu bod ar gael i bawb. Gwneir pob defnydd o dechnoleg arall sy'n caniatáu dulliau gweithio hyblyg.

## 3 – PERFFORMIAD AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL

Yn yr adran sy'n dilyn rydym yn ystyried perfformiad y 25 o awdurdodau cynllunio lleol ledled Cymru, ar sail y dangosyddion a'r targedau a osodwyd yn y Fframwaith Perfformiad Cynllunio, ac a gyhoeddwyd yn nhabl y Fframwaith Perfformiad ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2014/15 (gweler Atodiad A). Lle bo'n berthnasol, mae siartiau wedi'u cynnwys i ddangos meincnodau a chymharu cynnydd ar sail dangosyddion. Mae pob dangosydd perfformiad wedi'i ystyried yn fanwl.

**Adnoddau**

Gofynnwyd i awdurdodau cynllunio lleol adrodd yn eu Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol ar faterion sy'n ymwneud ag ariannu ac adnoddau mewn adrannau cynllunio lleol. Mae 11 o'r 25 o ACLlau wedi darparu gwybodaeth fanwl am gyllidebu ac adnoddau yn eu APB.

Er bod y darlun ledled Cymru'n gymysg, mae'n glir bod tuedd gyffredinol i ostwng y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau cynllunio lleol. Roedd rhai awdurdodau wedi gweld cynnydd yn eu cyllideb ym mlwyddyn ariannol 2014/15 – er ei bod yn bwysig nodi bod yr awdurdodau hyn wedi cyfeirio yn eu APB at y ffaith bod meysydd pwysig yn eu gwasanaeth yr oedd angen eu gwella. Mewn cymhariaeth â hyn, roedd yr adnoddau mewn un awdurdod wedi gostwng 40% yn ystod y cyfnod hwn.

Roeddem wedi cydnabod yn ein hymgynghoriad ar ffioedd cynllunio yn Rhagfyr 2014 na fydd ffioedd fel arfer yn cwrdd â'r holl gost am ddarparu gwasanaethau cynllunio – yn enwedig am geisiadau gan ddeiliaid tai a rhai am waith ar raddfa fach, sef y rhan fwyaf o lwyth gwaith yr awdurdod cynllunio lleol. Er i ni gyflwyno cynnydd o 15% mewn ffioedd cynllunio o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwnnw ym Medi 2015 (ar ôl diwedd y cyfnod adrodd hwn), mae'r ffordd o gasglu a gwario'r ffioedd hynny'n amrywio rhwng awdurdodau cynllunio lleol.

Er bod cyllidebu a chynllunio ariannol ar gyfer gwasanaethau lleol yn fater i bob awdurdod penodol, mae ymgeiswyr yn talu ffi am wasanaeth, ac yn disgwyl cael lefel resymol o wasanaeth am y tâl hwnnw; hefyd, dylai lefel y gwasanaeth a ddarperir fod yn gymesur â'r swm a dalwyd. Os yw awdurdodau'n dewis defnyddio modelau ariannu lle nad yw cynnydd mewn ffioedd yn cael ei drosglwyddo i adrannau cynllunio, yna rhaid i'r model ariannu a ddewisir fod yn ddigon i sicrhau lefel gwasanaeth briodol yng nghyd-destun yr incwm o ffioedd. Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i gydweithio ag awdurdodau cynllunio lleol i ystyried ffyrdd o adennill costau. Bydd yn anodd cyfiawnhau ystyriaeth i unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn y dyfodol os na fydd awdurdodau'n cadw'r arian a geir o ganlyniad i gynyddu ffioedd o fewn eu hadrannau cynllunio.

**Staffio**

Mae'r darlun o ran staffio ac adnoddau ar draws awdurdodau cynllunio lleol Cymru yn gymhleth ac amrywiol. Nid oes model sefydliadol cyffredin, ac mae llwyth gwaith ac arbenigaethau'r swyddogion yn amrywio'n fawr. Mewn rhai adrannau, mae timau rheoli datblygu bach yn delio â llwyth gwaith trwm o geisiadau mawr a chymhleth, ac mewn adrannau eraill sydd â llwyth gwaith tebyg, ceir nifer mwy o swyddogion yn delio â llwythi achosion sy'n llai ar gyfartaledd a cheisiadau sydd hefyd yn llai cymhleth.

Mae awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus hefyd wedi wynebu cyfnod o gyni ariannol yng nghyd-destun y gostyngiad yng nghyllid Llywodraeth y DU i'r sector

cyhoeddus yng Nghymru.  O ganlyniad i ostyngiadau strategol mewn cyllidebau, mae pob adran wedi wynebu'r angen i gyrraedd targedau ar gyfer arbedion.

Mae mwyafrif yr ACLlau sy'n wynebu'r angen hwn wedi sicrhau arbedion drwy ddileu swyddi, cadw swyddi'n wag mewn timau ac, mewn rhai achosion, drwy ddiswyddo gwirfoddol.  O ganlyniad i hyn, mae llwyth gwaith y swyddogion sydd ar ôl wedi cynyddu ac mae llai o gyfle i ariannu neu neilltuo amser ar gyfer hyfforddiant a datblygiad parhaus.

Cafwyd effaith anghymesur ar y gallu i gadw arbenigedd a sgiliau mewn adrannau cynllunio lleol, yn enwedig mewn meysydd arbenigol a gweithgareddau dewisol fel gorfodi.  Mae gwaith yn mynd rhagddo i resymoli'r defnydd o adnoddau ac arbenigedd mewn nifer o ardaloedd, ac mae awdurdodau yng Ngogledd Cymru yn benodol yn cydweithio'n agos i edrych yn fwy manwl ar opsiynau ar gyfer arferion gweithio ar y cyd.  Yn yr un modd, mae gwasanaethau mwynau a gwastraff ar y cyd yng Ngogledd a De-orllewin Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr a hyblyg i nifer o awdurdodau cynllunio lleol.

Mae awdurdodau cynllunio lleol yn gyfrifol am eu cynlluniau a'u hymrwymiadau eu hunain o ran darparu adnoddau, ond rhaid iddynt sicrhau bod adrannau cynllunio'n gallu darparu lefel gwasanaeth briodol, gan gynnwys gwasanaethau gorfodi ac arbenigedd technegol ar faterion cynllunio neu, fel arall, dylid sicrhau'r arbenigedd perthnasol drwy gydweithio neu gytundeb lefel gwasanaeth.

**TROSOLWG AR Y PERFFORMIAD CYFARTALOG YNG NGHYMRU AR YR HOLL DDANGOSYDDION**

Mae'r siart hon yn cymharu'r perfformiad cyfartalog gan awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru ar sail y 18 o ddangosyddion yn y Fframwaith Perfformiad, ar gyfer y cyfnodau 2013/14 a 2014/15. Cyflwynwyd nifer o'r dangosyddion hyn ym mis Tachwedd 2014. Nid yw data cymharol ar gael am y cyfnodau blaenorol.


| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwneud cynllun** | | | | | | |
| 1. A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun? | Oes | | Nac oes | | Oes | Oes |
| 2. Y gwyriad, wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd. | <12 | 13-17 | 18+ | | 46 | 47 |
| 3. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLl | Oes | | Nac oes | | Oes | Oes |
| 4. Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd | >5 | 4-4.9 | <4 | | 4.7 | 4.2 |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | |
| 5. Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | | 21 | 24 |
| 6. Amser ar gyfartaledd a gymerir i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | | Dim Data | 206 |
| 7. Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol | >80 | 60.1-79.9 | <60 | | 72.1 | 72.7 |
| 8. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | | Dim Data | 76.4 |
| **Ansawdd** | | | | | | |
| 9. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | | 0.8 | 10.1 |
| 10. Canran yr apeliadau a gafodd eu gwrthod | >66 | 55.1-65.9 | <55 | | 65.4 | 65.6 |

| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 11. Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd | 0 | 1 | 2 | | 0 | 0 |
| **Ymgysylltu** | | | | | | |
| 12. A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio? | Ydyw | | Nac ydyw | | Ydyw | Ydyw |
| 13. A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd? | Oes | | Nac oes | | Dim Data | Oes |
| 14. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)? | Oes | Rhannol | Nac oes | | Oes | Oes |
| **Gorfodi** | | | | | | |
| 15. Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu hymchwilio (penderfynu a yw rheolaeth gynllunio wedi'i thorri ac, os ydyw, penderfynu a fydd mantais mewn cymryd camau gorfodi) o fewn 84 diwrnod | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | | Dim Data | 65.8 |
| 16. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | | Dim Data | 71.1 |
| 17. Canran yr achosion gorfodi lle cymerwyd camau gorfodi neu lle cafwyd ôl-gais o fewn 180 o ddiwrnodau ar ôl dechrau'r achos (yn yr achosion lle'r oedd mantais mewn cymryd camau gorfodi). | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | | Dim Data | 76.8 |
| 18. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | | Dim Data | 175.5 |

## ADRAN 1 – GWNEUD CYNLLUN

| Dangosydd | 01. A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun? | |
|---|---|---|
| **“Da”** | | **“Angen gwella”** |
| Mae cynllun datblygu (CDLl neu CDU) yn ei le ac o fewn cyfnod y cynllun | | Nid oes cynllun datblygu yn ei le (gan gynnwys cynlluniau sydd wedi dod i ben) |

| Perfformiad | Oes (17 o 25) |
|---|---|




**Ffigur 1 – Awdurdodau cynllunio lleol sydd wedi mabwysiadu cynllun datblygu ym Mawrth 2015**

Ar 31 Mawrth 2015, roedd 21 o 25 o awdurdodau cynllunio lleol wedi mabwysiadu cynllun datblygu. Mabwysiadwyd dau Gynllun Datblygu Lleol yn ystod y cyfnod adrodd, gan ddod â chyfanswm y CDLlau a fabwysiadwyd i 17, ac roedd pedwar awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Unedol. Mae hyn yn gadael pedwar awdurdod yng Nghymru sydd heb fabwysiadu cynllun datblygu ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2014/15.


Yn achos pob un o’r pedwar awdurdod hyn, mae’r gwaith ar briod gynllun datblygu’r awdurdod wedi’i arafu’n sylweddol, er y rhagwelir y bydd pob un ohonynt yn cyrraedd cerrig milltir allweddol yn y flwyddyn nesaf – gan gynnwys dau a oedd i gael eu mabwysiadu erbyn Mawrth 2015.

Mae swyddogion sy’n gweithio ar gynlluniau datblygu wedi ffurfio eu grwpiau swyddogion polisi rhanbarthol eu hunain, i rannu eu profiadau a’u harferion, ac ystyried rhagor o opsiynau ar gyfer cydweithio i symud ymlaen â’u CDLlau. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn cydweithio’n agos â’r awdurdodau hynny sy’n paratoi neu’n diwygio eu CDLlau.

| Dangosydd | 02. Y gwyriad, wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Eir i'r afael â'r CDLl o fewn 12 mis i'r dyddiadau a nodir yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol. | Eir i'r afael â'r CDLl o fewn 12 i 18 mis i'r dyddiadau a nodir ar y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol. | Eir i'r afael â'r CDLl fwy na 18 mis yn hwyrach na'r dyddiad a nodir ar y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol |

| Perfformiad | 47 mis (rhwng saith CDLl y mae oedi arnynt ar hyn o bryd) |
|---|---|

Mae'n ofynnol bod pob awdurdod cynllunio lleol yn cyhoeddi Cytundeb Cyflawni, yn gynnar iawn yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol, sy'n disgrifio sut y bydd yn paratoi'r cynllun, gan gynnwys amserlen sy'n dangos y prif gamau ar gyfer cynnydd. Mae'r dangosydd hwn yn mesur llithriant oddi wrth gerrig milltir allweddol sydd wedi'u nodi yn amserlen y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol. Mae'n gymwys dim ond i ACLlau a oedd heb fabwysiadu CDLl ym Mawrth 2015.




**Ffigur 2 – Oedi wrth baratoi CDLlau, mewn misoedd**

Er bod saith awdurdod wedi'u rhestru uchod, mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn paratoi CDLl sengl ar y cyd. Roedd oedi sylweddol wedi bod ar bob un o'r chwe CDLl a oedd yn cael eu paratoi ym Mawrth 2015. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn cynnwys tynnu cynlluniau drafft yn ôl ar ôl eu datblygu i raddau helaeth. Mae dau CDLl ychwanegol lle mae'r gwaith o'u paratoi mewn cyfnod mor gynnar fel nad ydynt wedi

cyrraedd unrhyw gerrig milltir ar gyfer cymharu, felly nid ydynt wedi’u cynnwys yn y siart uchod.

Bydd awdurdodau sy’n symud ymlaen yn dda â’u cynlluniau datblygu, ac yn unol â’u cytundebau cyflawni, yn osgoi cost ychwanegol ar draul y cyhoedd drwy gadw cost y gwaith sy’n gysylltiedig â’r cynllun o dan reolaeth a lleihau’r risg o apelau llwyddiannus yn erbyn penderfyniadau cynllunio.

Rydym hefyd wedi edrych ar y broses o baratoi’r CDLl, ar ôl ystyried adborth gan ACLlau a rhanddeiliaid eraill, ac wedi cyflwyno cyfres o welliannau a fydd yn eu helpu i gasglu a chadarnhau tystiolaeth ddibynadwy ar gyfer paratoi’r CDLl.  Mae’r gwelliannau hyn yn cynnwys newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, a chanllawiau diwygiedig ar gynhyrchu cynlluniau datblygu.  Yn ogystal â hyn, bydd y profiad sydd gan swyddogion ACLlau o baratoi CDLlau yn rhoi’r gallu i gynllunio prosiectau’n effeithiol ar gyfer adolygu CDLlau yn y dyfodol.

Mae’r ACLlau hynny a oedd wedi mabwysiadu eu CDLl gyntaf wedi cyrraedd y dyddiad cychwyn ar gyfer adolygu eu CDLl, sef 4 blynedd ar ôl ei fabwysiadu.  Felly, bydd yr ACLlau hyn hefyd yn cael eu hasesu ar sail y dangosydd hwn.  Rydym yn rhag-weld y bydd adolygiadau o CDLlau yn symud ymlaen yn unol â’r cynlluniau prosiect ar eu cyfer.  Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro’r cynnydd ar CDLlau yn fanwl gan gydweithio ag ACLlau a rhanddeiliaid eraill.

| **Dangosydd** | **03. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi’u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu’r CDLl** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | | **“Angen gwella”** |
| Mae’n amser cyflwyno AMB ac mae un wedi’i baratoi | | Mae’n amser cyflwyno AMB, ac nid oes un wedi’i baratoi mewn pryd. |

| **Perfformiad** | Oes (8 o 8) |
|---|---|


Mae cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) yn ofyniad deddfwriaethol.  Mae’n adrodd ar y cynnydd ar gyflawni nodau’r CDLl, ac yn dangos a yw strategaeth a pholisïau’r CDLl yn gweithio fel y bwriadwyd.  Cytunir ar y cyd-destun a’r dangosyddion ar gyfer AMB o dan broses yr archwiliad cyhoeddus, cyn mabwysiadu’r CDLl.  Bydd tuedd negyddol yn erbyn dangosydd ar gyfer AMB yn gallu sbarduno adolygiad rhannol neu lawn o’r CDLl.  Drwy gyflwyno AMBau yn amserol, gellir dal polisïau’r CDLlau dan sylw i sicrhau eu bod yn effeithiol ac addas.

Roedd pob ACLl yr oedd yn ofynnol iddo gyflwyno AMB yn Hydref 2014 wedi gwneud hynny.  Mae manylion yr AMB, a’r casgliadau yr oedd yr awdurdod dan sylw wedi dod iddynt, wedi’u cyhoeddi ar wefan pob un o’r awdurdodau.

| Dangosydd | 04. Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Mae gan yr awdurdod 5 mlynedd neu fwy o gyflenwad o dir ar gyfer tai | Mae gan yr awdurdod rhwng 4 a 5 mlynedd o gyflenwad o dir ar gyfer tai. | Mae gan yr awdurdod lai na 4 blynedd o gyflenwad o dir ar gyfer tai |

| **Perfformiad** | 4.2 blynedd |
|---|---|

Mae'r system gynllunio'n gyfrifol am ddarparu safleoedd addas ar gyfer tai newydd drwy broses y CDLl. Mae'r angen hwn yn cael ei gyfrifo drwy Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Bob blwyddyn bydd pob un o'r awdurdodau cynllunio lleol yn cynnal astudiaeth, ac yn cyhoeddi'r canfyddiadau o'r astudiaeth. Disgwylir i awdurdodau cynllunio lleol ddangos yn eu hastudiaethau fod digon o dir addas ar gael o fewn yr awdurdod i adeiladu tai ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Os oes prinder tir ar gyfer tai, gall hynny olygu nad yw cynllun yr awdurdod yn cwrdd â'r galw am dai a bod angen ei ddiwygio. Mae hyn yn golygu hefyd fod cais am ddatblygiad tai sydd heb ei ddynodi yn y CDLl yn llawer mwy tebygol o lwyddo os ceir apêl.




**Ffigur 3 – Nifer yr ACLlau sydd â chyflenwad tir ar gyfer tai o 5 mlynedd neu fwy**

Y cyd-destun polisi cenedlaethol, sydd wedi'i ddisgrifio yn Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 1: Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai yw bod rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gadw cyflenwad o dir ar gyfer tai ar gyfer 5 mlynedd o leiaf. Os bydd awdurdod yn methu â gwneud hyn, yna rhaid iddo geisio pennu mesurau i ddelio â'r diffyg hwn yn ei Adroddiad Monitro Blynyddol.

Mewn blynyddoedd i ddod, ni fydd y categori "gweddol" yn cael ei gynnwys, er mwyn sicrhau bod y polisi hwn wedi'i adlewyrchu'n gywir.


**ADRAN 2 - EFFEITHLONRWYDD**

| **Dangosydd** | **05. Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| I'w feincnodi | I'w feincnodi | I'w feincnodi |

| **Perfformiad** | 24% |
|---|---|

Dylai awdurdodau cynllunio lleol benderfynu ar geisiadau cynllunio o fewn y cyfnodau a bennwyd mewn deddfwriaeth – 8 wythnos ar gyfer cais arferol, neu 16 wythnos ar gyfer cais a all gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd.  Gall ymgeiswyr ddewis ymestyn y cyfnod hwn ac, os cytunwyd i'w ymestyn, a bod y cais yn cael ei benderfynu o fewn y cyfnod hwnnw, yna bydd y cais hwnnw hefyd wedi'i benderfynu "mewn pryd".


Mae ceisiadau cynllunio mawr wedi'u diffinio mewn cyfraith cynllunio – oherwydd eu maint a'u graddfa maent yn debygol o gael effaith y tu hwnt i'r ardal o'u cwmpas, ac yn aml byddant yn codi ystyriaethau technegol cymhleth sy'n galw am waith ychwanegol gan ymgeiswyr, ymgyngoreion statudol a darparwyr seilwaith.




**Ffigur 4 – Nifer y ceisiadau cynllunio mawr a benderfynwyd mewn pryd**

Mae'r siart uchod yn dangos perfformiad cyffredinol yr awdurdodau cynllunio yng Nghymru wrth benderfynu ar y ceisiadau cynllunio mawr hyn.  Roedd 162 o'r 686 o geisiadau cynllunio wedi'u penderfynu o fewn y cyfnodau statudol a nodwyd uchod yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15.  Dyma gymhareb o 23.6% ar gyfer ceisiadau a benderfynwyd o fewn y

cyfnodau statudol, sy'n is na'r gymhareb o 27.4% yn y flwyddyn flaenorol, er bod cyfanswm y ceisiadau mawr a gyflwynwyd wedi gostwng.




**Ffigur 5 – Cymharu perfformiad ACLlau ar benderfynu ceisiadau cynllunio mawr**

Mae'r siart uchod yn dangos perfformiad unigol pob un o'r ACLlau ar sail y dangosydd hwn. Ar y cyfan, yr awdurdodau cynllunio lleol sydd â'r cyfraddau uchaf am benderfynu ceisiadau o fewn y cyfnodau statudol a ddangosir uchod yw'r rhai sy'n cael nifer cymharol fach o geisiadau o'r fath, a'r awdurdodau mwyaf yng Nghymru sy'n lleiaf tebygol o gydymffurfio â'r cyfnodau ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio a bennwyd mewn deddfwriaeth.

Mae dull cyflym ac effeithlon o brosesu ceisiadau'n ffactor allweddol o ran yr amser a gymerir i'w penderfynu. Fodd bynnag, os yw cais yn amwys neu'n anghyflawn, gall hynny arwain at oedi. Mae awdurdodau cynllunio wedi nodi bod gweithdrefnau dilysu effeithiol wedi helpu i sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd da yn cael ei darparu gyda cheisiadau, ac roedd nifer o awdurdodau cynllunio wedi adrodd yn eu APB fod dull y "tîm datblygu", sy'n dod â gwahanol adrannau o fewn yr awdurdod at ei gilydd i weithio ar brosiect, yn eu helpu i brosesu ceisiadau mawr yn gyflym. Arferion eraill sydd o gymorth yw trosglwyddo ceisiadau'n gynnar i'r swyddog achos perthnasol, a phennu dyddiad yn gynnar ar gyfer ystyried y cais gan y Pwyllgor Cynllunio.


Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno gofyniad newydd i ymgynghori â'r gymuned ar geisiadau mawr cyn eu cyflwyno, o dan bwerau sydd yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gymunedau gael eu hysbysu am gynigion ar gyfer datblygu cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio. Yr amcan yw rhoi'r gallu i ddiwygio ceisiadau o'r fath ar ôl ystyried mewnbwn gan y gymuned cyn eu cyflwyno, fel y ceir llai o wrthwynebiad yn y gymuned yn ddiweddarach. Bydd angen mesur y canlyniad i'r newid hwn o ran cyflymder penderfynu mewn blynyddoedd i ddod.

Gall rhai ceisiadau fod o fath sy'n galw am fwy nag 8 wythnos i'w penderfynu gan yr awdurdod cynllunio lleol. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y dangosydd, lle mae'r band "da" yn galw am benderfynu 80% neu ragor o'r ceisiadau o fewn y cyfnodau statudol, gan dderbyn bod cynifer â 20% a all alw am fwy o amser i ystyried yr holl faterion a godwyd ynddynt.

Rydym yn cydnabod bod mantais mewn ceisio hwyluso ceisiadau sy'n galw am waith ychwanegol, ac rydym wedi cytuno i ystyried estyniadau amser y cytunwyd arnynt â'r ymgeisydd wrth asesu amseroldeb penderfyniadau.

| **Dangosydd** | **06. Amser ar gyfartaledd a gymerir i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| I'w feincnodi | I'w feincnodi | I'w feincnodi |

| **Perfformiad** | 206 o ddiwrnodau |
|---|---|




**Ffigur 6 – Cymharu'r amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ceisiadau cynllunio mawr**

Mae amrediad y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i benderfynu cais cynllunio mawr yn arwyddocaol. Drwy gymharu'r siart hon â'r perfformiad gan y gwahanol ACLlau a nodwyd o dan ddangosydd 05 uchod, fe welir, er nad yw awdurdod penodol yn perfformio'n dda o reidrwydd ar benderfynu ceisiadau o fewn y cyfnodau statudol, ei fod yn gallu penderfynu'r ceisiadau hynny'n gyflymach nag awdurdodau eraill. Roedd pedwar awdurdod cynllunio lleol heb ddarparu gwybodaeth am berfformiad ar gyfer y cyfnod adrodd hwn.


Rydym yn priodoli'r gwahaniaeth rhwng y siartiau i faint cymharol fach y sampl o geisiadau mawr a benderfynwyd gan rai awdurdodau cynllunio lleol, a hefyd i amrywiaeth y mathau o ddatblygu sydd o fewn y categori "ceisiadau mawr". Mae hyn yn golygu bod cais am 10 o dai'n cael ei ystyried yn ddatblygiad mawr, i'r un graddau â chais am 1,000 o dai. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd y gwaith, yr amser a'r budd i'r gymuned ym mhob datblygiad yn amrywio'n sylweddol yn ôl ei raddfa.

Mewn cyfraith cynllunio, ni roddir caniatâd cynllunio nes bod hysbysiad penderfynu wedi'i gyhoeddi. Ni all hynny ddigwydd nes bydd negodiadau rhwng yr awdurdod a'r datblygwr ynghylch unrhyw rwymedigaethau cynllunio wedi dod i ben. Yn achos datblygiadau mawr, gall yr ystyriaeth gyfreithiol i rwymedigaethau fod yn helaeth, ac mae awdurdodau wedi cyfeirio at enghreifftiau yn eu APB lle cymerwyd rhai blynyddoedd i gwblhau achosion.

Mae'r dangosydd hwn wedi'i ddiwygio, fel nad yw'n cynnwys yr amser a gymerir i gwblhau rhwymedigaethau cynllunio os penderfynwyd cymeradwyo cais ar yr amod y cytunir ar rwymedigaethau.

| **Dangosydd** | **07. Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Penderfynwyd ar 80% neu fwy o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol | Penderfynwyd ar rhwng 60% ac 80% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol. | Penderfynwyd ar lai na 60% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol |

| **Perfformiad** | 72.7% |
|---|---|




**Ffigur 7 – Y nifer o'r holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd**


Roedd y llwyth gwaith o geisiadau cynllunio a oedd gan awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru wedi cynyddu dros y tair blwyddyn ariannol flaenorol, fel y mae ffigur 7 uchod yn

dangos – a chalonogol yw nodi bod canran y ceisiadau a benderfynwyd "mewn pryd" wedi cynyddu hefyd, er bod y llwythi gwaith yn fwy. (Mae diffiniad o geisiadau a benderfynwyd "mewn pryd" o dan Ddangosydd 05 uchod.)

Ym mlwyddyn ariannol 2014/15, roedd 17,591 o 24,203 o geisiadau cynllunio a benderfynwyd wedi'u penderfynu o fewn y cyfnod statudol; cyfradd o 72.7%. Mae hyn ychydig yn well nag mewn blynyddoedd blaenorol, er nad yw'n cyrraedd y safon "dda" sy'n galw am benderfynu 80% "mewn pryd".

Mae targed Llywodraeth Cymru ar gyfer penderfynu 80% o geisiadau "mewn pryd" yn adlewyrchu'r ffaith y ceir amgylchiadau lle mae cais yn codi materion cymhleth, neu lle mae angen rhagor o waith neu drafodaeth mewn Pwyllgor. Fodd bynnag, lleiafrif yw'r achosion hyn a byddant yn geisiadau "mawr" sy'n cael eu hystyried o dan y dangosydd hwn a hefyd ar wahân o dan Ddangosyddion 05 a 06.

Mae'r perfformiad ar y safon hon gan awdurdodau cynllunio lleol unigol wedi gwella hefyd yn ystod y cyfnod adrodd, ac roedd pum ACLl wedi cyrraedd y safon "dda" erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, sef dau'n fwy nag ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd un ACLl wedi gwella ei berfformiad yn y flwyddyn adrodd, ac wedi symud o'r band "angen gwella", ac roedd un ACLl wedi symud i'r band "angen gwella".





**Ffigur 8 – Cymharu perfformiad ACLlau ar benderfynu'r holl geisiadau cynllunio**

Mae'r awdurdodau hynny sy'n cyrraedd safon perfformiad uchel wedi sefydlu arferion sy'n sicrhau bod ceisiadau cynllunio'n cael eu trafod yn rhwydd, gan gynnwys gwasanaethau cyn ymgeisio, a phrosesau a ddatblygwyd yn lleol ar gyfer dilysu ceisiadau a monitro achosion. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yr awdurdodau. Bydd yr awdurdodau hynny nad oeddent wedi cyrraedd y band perfformiad "gweddol" yn cael cymorth i ystyried opsiynau ar gyfer gwella gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o newidiadau yn y ffordd o weithredu'r system rheoli datblygu, a gall y rhain arwain hefyd at brosesu ceisiadau cynllunio'n fwy amserol (gweler y manylion o dan Ddangosydd 05 uchod).

| **Dangosydd** | **08. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **“Angen gwella”** |
| I'w feincnodi | I'w feincnodi | I'w feincnodi |

| **Perfformiad** | 76.4 o ddiwrnodau (cyfartaledd) |
|---|---|




**Ffigur 9 – Cymharu'r amser a gymerwyd ar gyfartaledd i benderfynu'r holl geisiadau cynllunio**

Mae'r siart uchod yn cymharu'r amser a gymerwyd ar gyfartaledd i benderfynu'r holl fathau o geisiadau. Cyflwynwyd y dangosydd hwn ym mis Tachwedd 2014 mewn cytundeb â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru. Nid oes data hanesyddol ar gyfer pennu bandiau perfformiad: cytunir ar y rhain yn y dyfodol. Mae'r dangosydd hwn yn ceisio pennu cymharydd i Ddangosydd 07; mae angen bwrw ymlaen â cheisiadau sydd heb eu penderfynu o fewn y cyfnodau statudol, ac mae'r dangosydd hwn yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr o'r amser a gymerir i benderfynu ar geisiadau. Roedd pedwar awdurdod cynllunio lleol heb gyflwyno data perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn yn y cyfnod adrodd.

Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd yng Nghymru i benderfynu ar gais yw 76.4 o ddiwrnodau; ar ôl 84 o ddiwrnodau, bydd hawl gan yr ymgeisydd i apelio ar sail diffyg penderfynu, felly mae'r safon perfformiad hon yn dda at ei gilydd, er bod y cyfartaledd wedi'i ystumio gan un allanolyn.


Mae ACLlau wedi nodi bod yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu pob cais yn dibynnu nid yn unig ar raddfa a chymhlethdod y materion a godwyd, ond hefyd ar gywirdeb a chyflawnrwydd y cais ar adeg ei gyflwyno. Mae nifer o awdurdodau wedi nodi yn eu APB fod eu gwasanaeth cynghori cyn ymgeisio wedi bod o gymorth i ymgeiswyr, o ran llunio cynigion datblygu a gwella ansawdd y dogfennau a gyflwynir.

## ADRAN 3 - ANSAWDD

| **Dangosydd** | **09. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| I'w feincnodi | I'w feincnodi | I'w feincnodi |

| **Perfformiad** | 10.1% |
|---|---|


Mae'r mesur newydd hwn, a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2014, yn asesu nifer y penderfyniadau cynllunio a wnaed gan Bwyllgor Cynllunio a oedd yn groes i'r argymhelliad yn yr adroddiad gan y swyddog. Gan fod y mesur wedi'i gyflwyno hanner ffordd drwy'r flwyddyn, mae'r dadansoddiad o'r ystadegau wedi'i seilio ar ddata ar gyfer 6 mis.




**Ffigur 10 – Canran y penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a oedd yn groes i gyngor y swyddog**

Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol benderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r polisïau yn y cynllun datblygu priodol sydd wedi'i fabwysiadu, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn eu harwain i benderfynu fel arall. Wrth baratoi adroddiad, rhaid i swyddogion seilio eu cyngor ar y polisïau perthnasol yn y cynllun datblygu, felly gellir ystyried y dangosydd hwn yn fesur bras o gydymffurfiaeth â pholisi, ac yn arwydd o nifer y penderfyniadau lle mae ffactorau eraill yn drech na pholisi.

Mae cymhareb y penderfyniadau cynllunio sydd i'w gwneud gan Bwyllgor yn fater i'w bennu gan bob awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd.  Bydd hyn wedi'i seilio ar faint a graddfa'r datblygiad arfaethedig, cydymffurfiaeth â pholisi'r cynllun datblygu, yr effaith ar gymunedau a diddordeb lleol yn y mater.  Fodd bynnag, po fwyaf y nifer o benderfyniadau cynllunio a ddirprwyir, mwyaf cyson ac amserol fydd y penderfyniadau ar y cyfan.




**Ffigur 11 – Canran y penderfyniadau ar geisiadau cynllunio sy'n groes i gyngor y swyddogion o'i chymharu â chyfanswm y penderfyniadau gan Bwyllgor**

Roedd 88 o 867 o benderfyniadau wedi'u gwneud yn groes i argymhellion gan swyddogion yn y cyfnod adrodd, sef 10.1% ar gyfartaledd.  Nododd pedwar awdurdod nad oedd y penderfyniad ar unrhyw geisiadau yn groes i argymhelliad y swyddog. O'r pedwar hyn, roedd un awdurdod heb ddarparu gwybodaeth am nifer y ceisiadau a benderfynwyd gan Bwyllgor.

Mae nifer isel o benderfyniadau sy'n groes i argymhelliad y swyddog, mewn cymhariaeth â chyfanswm y penderfyniadau a wnaed gan Bwyllgor, yn dangos bod polisi a sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer penderfyniadau gan Aelodau ac yn rhoi sicrwydd i ymgeiswyr. Er enghraifft, os gwrthodir cais am nad yw'n unol â pholisïau'r cynllun datblygu, bydd yr awdurdod mewn lle da i amddiffyn ei benderfyniad os ceir apêl, ac mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir.  Mae cymhareb isel o benderfyniadau i gymeradwyo sy'n groes i gyngor y swyddogion hefyd yn dangos bod perthynas ac ymddiriedaeth iach rhwng y swyddogion a'r Aelodau mewn awdurdod.

Mae awdurdodau cynllunio lleol wedi nodi bod adroddiadau ar ôl apêl wedi helpu Pwyllgorau i sicrhau eu bod yn gwneud penderfyniadau sy'n gyson ac yn unol â'r polisïau perthnasol yng nghynllun datblygu'r awdurdod.  Bydd rhai awdurdodau hefyd yn cynnal ymweliadau â safleoedd datblygiadau a oedd wedi'u cymeradwyo cyn hynny, yn groes i gyngor y swyddogion, i ystyried y goblygiadau i bolisïau'r cynllun datblygu a phenderfyniadau yn y dyfodol.

Roedd nifer o awdurdodau cynllunio lleol hefyd wedi newid eu gweithdrefnau Pwyllgor yn ystod y flwyddyn adrodd. Roedd dau awdurdod yn benodol wedi rhoi penderfyniadau cynllunio gerbron y cyngor llawn cyn hynny, ond wedi newid fel eu bod yn gwneud y penderfyniadau hyn drwy Bwyllgor Cynllunio a oedd yn cael gwybodaeth a hyfforddiant mwy trwyadl. Mae'r ddau awdurdod wedi nodi bod yr arfer hwn wedi profi'n effeithiol o ran dod i benderfyniadau sydd wedi'u seilio i fwy o raddau ar bolisi, a bod ceisiadau'n fwy tebygol o gael eu penderfynu ar ddyddiadau sydd wedi'u pennu ar gyfer y Pwyllgor. Rydym yn rhag-weld y bydd yr ystadegau ar gyfer yr awdurdodau hyn yn gwella mewn blynyddoedd i ddod.

Yn ogystal â hyn, mae rhai awdurdodau wedi cyflwyno cyfnodau ar gyfer ailfeddwl, lle bydd cais sydd wedi'i benderfynu'n groes i gyngor y swyddog yn cael ei ohirio i'w ailystyried a'i gadarnhau mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol. Mae hyn yn rhoi cyfle i Aelodau ystyried materion o'r newydd, ac mae rhai awdurdodau wedi nodi bod hyn wedi llwyddo i ostwng nifer y penderfyniadau gan Aelodau sy'n groes i bolisïau'r cynllun datblygu, er bod oedi cyn gwneud penderfyniadau o ganlyniad.

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cynnwys pwerau i gyflwyno arferion safonol ar gyfer Pwyllgorau, gan gynnwys nifer eu haelodau a chyfraddau'r penderfyniadau sydd i'w dirprwyo.


| **Dangosydd** | **10. Canran yr apeliadau a gafodd eu gwrthod** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Mwy na 66% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl | Rhwng 55% a 66% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl | Llai na 55% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl. |

| **Perfformiad** | 65.6% |
|---|---|

Dylid seilio penderfyniadau cynllunio ar y polisïau sydd yn y cynllun datblygu priodol sydd wedi'i fabwysiadu, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn arwain yr awdurdod i benderfynu fel arall. Mae gan ymgeiswyr hawl i apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniad i wrthod caniatâd neu i osod amodau ar ganiatâd wrth ei gymeradwyo.

Os bydd awdurdod yn seilio ei benderfyniad cynllunio neu amodau perthnasol ar bolisïau'r cynllun datblygu, yna bydd yn fwy tebygol o allu amddiffyn y penderfyniad a wnaeth, os bydd yr ymgeisydd yn ceisio apelio. Ar y llaw arall, os bydd llai o berthynas rhwng y penderfyniad cynllunio a'r CDLl, yna bydd yr awdurdod yn ei chael yn fwy anodd amddiffyn ei benderfyniad os ceir apêl.


Mae'n bwysig nodi y bydd ymgeiswyr yn cael cyfle wrth apelio i ddarparu gwybodaeth ychwanegol nad oedd ar gael o reidrwydd pan oedd yr awdurdod cynllunio lleol wedi gwrthod caniatâd yn wreiddiol. Mae'n ofynnol i'r Arolygydd ystyried gwybodaeth ychwanegol, felly gall yr Arolygydd benderfynu ar achosion ar sail gwybodaeth nad oedd yn bresennol, neu a oedd yn wahanol o ran sylwedd i'r hyn a oedd gerbron yr awdurdod pan wrthododd ganiatâd yn wreiddiol. Felly, ni fydd penderfyniad yr Arolygydd ym mhob achos yn cael ei ystyried o reidrwydd yn ddangosydd "absoliwt" o briodoldeb y penderfyniad cynllunio gwreiddiol gan yr awdurdod.




**Ffigur 12 – Canran yr apelau cynllunio a gafodd eu gwrthod**

Mae'r band perfformiad "da" ar gyfer y dangosydd hwn (mwy na 66% o'r apelau wedi'u gwrthod) yn seiliedig ar berfformiad cyfartalog yr awdurdodau cynllunio yng Nghymru mewn apelau ym mlwyddyn ariannol 2012/13. Mae'r siart uchod yn dangos bod cyfanswm o 326 o'r 497 o apelau wedi'u gwrthod yn 2014/15, sef cyfartaledd o 65.6% - ychydig yn is na'r band "da". Mae hyn ychydig yn well hefyd na'r cyfartaledd o 65.4% yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r siart wedi'i mynegrifo ar sail canran yr apelau a wrthodwyd, gyda'r ganran uchaf ar y chwith a'r isaf ar y dde. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, yn achos rhai awdurdodau lle'r oedd nifer yr apelau a benderfynwyd yn fach iawn, fod y nifer bach iawn o apelau a gadarnhawyd yn gallu cael effaith anghymesur ar berfformiad ar sail y dangosydd hwn.




**Ffigur 13 – Cymharu nifer y penderfyniadau i wrthod caniatâd a wrthdrowyd a'r apelau a wrthodwyd**

Mae Ffigur 13 uchod yn cymharu nifer y ceisiadau am ganiatâd a wrthodwyd yn groes i gyngor swyddogion a chyfradd llwyddiant yr awdurdod ar ôl apelio yn yr un cyfnod adrodd. Mae'n bwysig deall nad yw pob penderfyniad i wrthod cais yn mynd i apêl, ac nad yw pob apêl yn llwyddo – er hynny, mae'r llinell duedd yn dangos bod cysylltiad rhwng y tebygolrwydd o gadarnhau penderfyniad yr awdurdod ar ôl apelio a'r graddau y mae'r awdurdod yn cydymffurfio â chyngor ei swyddogion.


Mae'n bosibl y bydd y camau a gymerwyd gan rai awdurdodau i feithrin sgiliau Aelodau ac adolygu penderfyniadau gan Bwyllgorau, a nodwyd o dan Ddangosydd 09 uchod, yn helpu i ddelio â nifer y penderfyniadau i wrthod caniatâd yn groes i argymhelliad y swyddog. Byddwn yn ystyried y gydberthynas rhwng nifer y penderfyniadau i wrthod caniatâd a wrthdrowyd a chyfraddau llwyddiant ar ôl apelio mewn blynyddoedd i ddod.

| **Dangosydd** | **11. Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Nid yw'r awdurdod wedi gorfod talu costau unrhyw apêl yn ei erbyn. | Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau un apêl yn ei erbyn | Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau dwy apêl neu fwy yn ei erbyn |

| **Perfformiad** | 0 apêl (20 o 25) |
|---|---|

Yn ystod apêl, bydd yr apelydd a'r awdurdod perthnasol yn cael cyfle i geisio adennill costau'r broses apelio. Mae'r costau'n cynnwys y gwaith a'r ymdrech yr oedd eu hangen i ddod â'r achos i apêl – gall hyn gynnwys yr amser a'r costau ar gyfer rhoi tystiolaeth gan swyddogion neu asiantau.

Os penderfynir bod yr awdurdod yn gorfod talu costau'r apêl, y rheswm am hynny yw bod yr Arolygydd yn credu bod yr awdurdod wedi gweithredu'n afresymol wrth wrthod caniatâd. Y cyd-destun i'r dangosydd perfformiad hwn yw na ddylai awdurdod cynllunio lleol byth gael ei weld yn gwrthod caniatâd yn afresymol.




**Ffigur 14 – Nifer yr achosion lle penderfynwyd bod yr awdurdod cynllunio lleol yn gorfod talu costau mewn apêl**

Mae Ffigur 14 uchod yn dangos mai dim ond mewn chwe achos y penderfynwyd bod awdurdodau cynllunio lleol yn gorfod talu costau'r apêl – er bod un awdurdod wedi gorfod talu costau mewn dau achos. Nid oedd 20 o 25 o awdurdodau wedi gorfod talu costau mewn apêl, ac mae hyn yn ganlyniad llwyddiannus ar sail y dangosydd hwn.

Mae rhai awdurdodau wedi nodi bod yr adolygiad o achosion lle roeddent wedi gorfod talu costau mewn apêl wedi'u helpu i ddeall pam yr oedd yr arolygydd yn gweld eu penderfyniadau'n afresymol, ac maent wedi elwa o'r gwersi a ddysgwyd yn y penderfyniadau a wnaethant wedyn.


## ADRAN 4 – YMGYSYLLTU

| **Dangosydd** | **12. A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | | **"Angen gwella"** |
| Mae aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio | | Nid yw aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio |

| **Perfformiad** | Ydyw (24 o 25) |
|---|---|

Mae penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud gan awdurdodau cynllunio lleol er y budd cyhoeddus ehangach. Rhaid iddynt adlewyrchu, a chael eu gweld yn adlewyrchu, farnau a dyheadau'r cymunedau lle mae'r datblygu'n digwydd. Mae ymddiriedaeth y gymuned mewn penderfyniadau cynllunio'n dibynnu ar y gred bod y materion sydd o bwys iddi'n cael eu hystyried wrth wneud y penderfyniadau hynny.

Mae deddfwriaeth gynllunio'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol roi cyhoeddusrwydd i geisiadau cynllunio, fel y gall cymunedau roi gwybod am eu barn. Fodd bynnag, bydd yn well gan lawer o unigolion gyfleu eu barn ar lafar ac yn uniongyrchol i Aelodau etholedig pan fyddant yn penderfynu ar geisiadau yn y Pwyllgor Cynllunio. Lle mae cyfleoedd o'r fath ar gael, bydd y cais i annerch y Pwyllgor yn cael ei wneud ymlaen llaw fel arfer a bydd unigolion yn cael rhwng 3 a 5 munud fel arfer i fynegi eu barn.





**Ffigur 15 – Nifer yr awdurdodau sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio**

Ar adeg llunio tabl Fframwaith Perfformiad 2014-15, roeddem wedi cael gwybod bod tri awdurdod nad oeddent yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch eu Pwyllgor Cynllunio yn uniongyrchol, pan oedd y Pwyllgor yn penderfynu ar geisiadau. Ers cyflwyno'r Adroddiadau Perfformiad Blynyddol ym mis Tachwedd 2015, rydym wedi cael ein hysbysu bod dau o'r awdurdodau hynny bellach wedi cyflwyno trefniadau i alluogi aelodau o'r cyhoedd i annerch y Pwyllgor Cynllunio. Felly nid oes ond un awdurdod erbyn hyn nad yw'n cynnig cyfle i unigolion wneud hyn.

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cynnwys pwerau a fyddai'n caniatáu i weithdrefnau pwyllgorau cynllunio fod yn unffurf ledled Cymru. Gellid defnyddio'r pwerau hyn i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau ddarparu cyfleoedd i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio.

| **Dangosydd** | **13. A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | | **"Angen gwella"** |
| Mae aelodau o'r cyhoedd yn gallu gofyn am gyngor gan swyddog cynllunio ar ddyletswydd | | Nid oes swyddog cynllunio ar ddyletswydd ar gael |

| **Perfformiad** | Oes (22 o 25) |
|---|---|




**Ffigur 16 – Nifer yr awdurdodau sy'n darparu gwasanaeth "swyddog ar ddyletswydd"**

Mae defnyddwyr gwasanaethau cynllunio'n cael gofyn am gyngor neu wybodaeth gan adran gynllunio leol ar ddatblygiadau, un ai fel ymgeisydd neu fel trydydd parti y mae datblygiad yn effeithio arno. Mae defnyddwyr gwasanaethau'n disgwyl y byddant yn gallu cael cyngor gan un o swyddogion yr awdurdod sy'n gallu cynnig safbwynt profiadol a gwybodus am gynigion datblygu penodol. Bydd maint y gwasanaeth hwnnw'n dibynnu ar natur a graddfa unrhyw ddatblygiad arfaethedig, a gellir cyfeirio ymgeiswyr at wasanaeth cyn ymgeisio ffurfiol a all hefyd fod yn ddarostyngedig i gynllun codi tâl lleol.


Nododd 22 o 25 o awdurdodau fod ganddynt system swyddogion ar ddyletswydd ar waith i sicrhau bod un o swyddogion yr awdurdod, sy'n delio â cheisiadau cynllunio yn ei waith arferol, ar gael i ddarparu cyngor ac arweiniad i ymgeiswyr a thrydydd partïon.

Dywedodd tri awdurdod nad oedd swyddog ar ddyletswydd ar gael ganddynt. Yn yr achosion hyn, rhoddodd awdurdodau wybod i ni fod y penderfyniad i beidio â darparu

system swyddogion ar ddyletswydd wedi'i seilio ar ystyriaethau o ran y gyllideb a rheoli'r llwyth gwaith.

| Dangosydd | **14. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Mae pob dogfen ar gael ar-lein | Dim ond manylion y cais cynllunio sydd ar gael ar-lein, a rhaid gofyn yn uniongyrchol am gael gweld dogfennau eraill | Ni chyhoeddir gwybodaeth am geisiadau cynllunio ar-lein |

| **Perfformiad** | Oes (20 o 25) |
|---|---|




**Ffigur 17 – Nifer yr awdurdodau sy'n cyhoeddi gwybodaeth am geisiadau cynllunio ar eu gwefan**

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid a chymorth i awdurdodau cynllunio lleol, i alluogi ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau cynllunio'n electronig, drwy'r Porth Cynllunio. Cyflwynir tua 50% o'r holl geisiadau cynllunio fel hyn yn awr, ac mae'r rheini a gyflwynir i awdurdodau cynllunio lleol ar ffurf copi caled yn cael eu trosglwyddo i system gwaith achos ceisiadau cynllunio electronig yr awdurdod.

O ganlyniad i hyn, mae'r holl geisiadau cynllunio a dogfennau cysylltiedig yn cael eu storio a'u rheoli mewn fformat electronig, ac mae nifer o ddarparwyr meddalwedd ar gyfer y system gynllunio'n cynnig gwasanaethau a fydd yn cyhoeddi'r rhain yn awtomatig ar y rhyngrwyd.

Mae ffyrdd hwylus o gael gafael ar wybodaeth gywir am geisiadau cynllunio'n galluogi aelodau o'r cyhoedd i arfer eu hawliau i gymryd rhan yn y broses benderfynu.  Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried unrhyw sylwadau y maent yn eu cael wrth benderfynu a fyddant yn rhoi caniatâd cynllunio neu beidio, ac mae'n ofynnol iddynt roi cyhoeddusrwydd i geisiadau, a gosod copïau o'r cais cynllunio a dogfennau cysylltiedig mewn cofrestr gynllunio gyhoeddus.  Y fantais o gyhoeddi ceisiadau cynllunio ar-lein yw bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu gweld gwybodaeth am gynllunio ar adeg ac mewn lleoliad sy'n gyfleus iddynt, a'i bod yn haws o lawer iddynt gymryd rhan yn y broses gynllunio.


Mae 20 o 25 o awdurdodau'n dweud eu bod yn atgynhyrchu eu cofrestrau cynllunio cyhoeddus yn gyflawn ar eu gwefan.  O'r pum awdurdod sy'n weddill, mae pob un yn ystyried opsiynau i roi mwy o allu i gael gafael ar wybodaeth am geisiadau cynllunio, er bod hyn yn dibynnu ar nifer o wahanol ystyriaethau, gan gynnwys cyllidebau ar gyfer gwasanaethau TGCh.  Nododd dau o'r awdurdodau eu bod yn ystyried opsiynau ar gyfer cyhoeddi holl fanylion y ceisiadau ar y rhyngrwyd, dros y misoedd nesaf.

## ADRAN 5 – GORFODI

| **Dangosydd** | **15. Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu hymchwilio (penderfynu a yw rheolaeth gynllunio wedi'i thorri ac, os ydyw, penderfynu a fydd mantais mewn cymryd camau gorfodi) o fewn 84 diwrnod** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| I'w feincnodi | I'w feincnodi | I'w feincnodi |

| **Perfformiad** | 65.8% |
|---|---|

Mae'r mesur newydd hwn, a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2014, yn ystyried canran yr achosion gorfodi cynllunio y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn ymchwilio iddynt o fewn 84 o ddiwrnodau. Ystyr "ymchwilio" yw bod yr awdurdod wedi cael cwyn bod datblygu anghyfreithlon wedi'i gyflawni, ei fod wedi edrych yn fanwl ar y mater, wedi penderfynu a yw'r datblygiad yn anghyfreithlon neu beidio, ac wedi hysbysu'r achwynydd am y penderfyniad hwn. Gan fod y mesur wedi'i gyflwyno hanner ffordd drwy'r flwyddyn, mae'r dadansoddiad o'r ystadegau wedi'i seilio ar ddata ar gyfer 6 mis, yn hytrach na 12 mis.





**Ffigur 18 – Canran y cwynion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 o ddiwrnodau**

Mae'r siart uchod yn dangos bod ymchwilio'n digwydd i fwyafrif yr achosion o gwynion am dorri rheolaeth gynllunio (65.8%) o fewn y cyfnod o 84 o ddiwrnodau a bennwyd. Roedd rhai awdurdodau sydd â pherfformiad sy'n is na'r cyfartaledd ar y dangosydd hwn wedi nodi eu bod yn delio ag ôl-groniad o gwynion gorfodi.

| Dangosydd | 16. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **“Angen gwella”** |
| I’w feincnodi | I’w feincnodi | I’w feincnodi |

| Perfformiad | 71.1 o ddiwrnodau |
|---|---|

Mae’r dangosydd hwn wedi gynnwys fel cymharydd i berfformiad awdurdodau ar y cyfnod 84 diwrnod ar gyfer ymchwilio i achosion gorfodi. Cyflwynwyd y dangosydd hwn ym mis Tachwedd 2014, ac mae 14 o 25 o awdurdodau cynllunio lleol wedi adrodd ar eu perfformiad.





**Ffigur 19 – Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ymchwilio i achosion gorfodi**

Mae’r siart uchod yn dangos bod yr ymchwil i fwyafrif y cwynion gorfodi’n digwydd yn gyflym. Roedd 11 o’r 14 o awdurdodau a ddarparodd ddata wedi delio â chwynion gorfodi o fewn 40 niwrnod, a thri awdurdod wedi cymryd cyfnod hirach o lawer; mae’r tair lefel perfformiad hyn wedi cael effaith anghymesur ar y cyfartaledd cenedlaethol. Mae’r awdurdodau hynny sy’n perfformio’n llai ffafriol ar y dangosydd hwn wedi nodi bod ganddynt swyddi gwag ar gyfer swyddogion gorfodi, neu eu bod wedi dewis dileu swyddi swyddogion gorfodi, a throsglwyddo gwaith achosion gorfodi i swyddogion rheoli datblygu. Mae rhagor o fanylion am y cyd-destun i’r perfformiad gan bob awdurdod yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol yr awdurdod dan sylw.

| Dangosydd | 17. Canran yr achosion gorfodi lle cymerwyd camau gorfodi neu lle cafwyd ôl-gais o fewn 180 o ddiwrnodau ar ôl dechrau'r achos (yn yr achosion lle'r oedd mantais mewn cymryd camau gorfodi). | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| I'w feincnodi | I'w feincnodi | I'w feincnodi |

| **Perfformiad** | 76.8% |
|---|---|

Ar ôl cadarnhau ei bod yn briodol ac yn fanteisiol cymryd camau gorfodi, dylai'r awdurdod cynllunio lleol gymryd camau i reoleiddio toriadau ar reolaeth gynllunio, o fewn cyfnod rhesymol.  Mae'r cyfnod o 180 o ddiwrnodau wedi'i bennu yn y cyd-destun bod yr awdurdod fel arfer yn cymryd hyd at 84 o ddiwrnodau i ganfod toriadau (fel y nodwyd yn Nangosyddion 15 ac 16).





**Ffigur 20 – Canran y cwynion gorfodi a oedd wedi'u datrys o fewn 180 o ddiwrnodau**

Mae'r siart uchod yn dangos bod camau'n cael eu cymryd o fewn 180 o ddiwrnodau mewn 76.8% o achosion gorfodi lle mae angen gweithredu.  Roedd tri awdurdod heb ddarparu gwybodaeth am berfformiad ar gyfer y dangosydd hwn.

| Dangosydd | 18. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| I'w feincnodi | I'w feincnodi | I'w feincnodi |

| Perfformiad | 175.5 o ddiwrnodau |
|---|---|

Mae'r dangosydd hwn wedi'i gynnwys fel cymharydd i berfformiad awdurdodau ar y cyfnod o 180 o ddiwrnodau ar gyfer datrys achosion gorfodi, lle mae angen cymryd camau. Cyflwynwyd y dangosydd hwn ym mis Tachwedd 2014, ac mae 5 awdurdod cynllunio lleol nad ydynt wedi darparu data am berfformiad.




**Ffigur 21 – Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ddatrys achosion gorfodi**

Mae'r tabl uchod yn dangos bod yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ddatrys achosion gorfodi ym mwyafrif yr achosion lle mae ACLlau wedi cofnodi eu perfformiad yn llai na'r cyfnod o 180 o ddiwrnodau a ddatblygwyd drwy ymgynghori â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mae un allanolyn arwyddocaol ar y dangosydd hwn sydd wedi effeithio ar y cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae rhagor o fanylion am y cyd-destun i'r perfformiad gan bob awdurdod yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol yr awdurdod dan sylw.

## 4 – DATBLYGU CYNALIADWY

Llywodraeth Cymru yw un o'r ychydig weinyddiaethau yn y byd hyd yn hyn sydd â dyletswydd statudol mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) i gyflawni datblygu cynaliadwy[1]. Mae'r Ddeddf yn rhoi diffiniad clir o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru:

> *Ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.*

Ystyr gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw bod rhaid i'r corff weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb danseilio gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

Mae'r system gynllunio'n angenrheidiol a chanolog ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n darparu'r fframwaith polisi a deddfwriaethol ar gyfer rheoli'r ffordd y mae tir yn cael ei ddefnyddio a'i ddatblygu er lles y cyhoedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fesur y cyfraniad a geir gan y system gynllunio. Rydym wedi datblygu fframwaith monitro, sef set o Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy, i ategu a hyrwyddo ein dull ehangach o fesur y cynnydd tuag at Ddatblygu Cynaliadwy yng Nghymru drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy**

*Cefndir*

Yn 2009 ymrwymodd Llywodraeth Cymru, drwy ymgynghori â llywodraeth leol, i sefydlu fframwaith monitro i fesur canlyniadau allweddol ar gyfer datblygu cynaliadwy a geir drwy'r system gynllunio. Yn 2011 cyhoeddodd Pwyllgor Datblygu Cynaliadwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei adroddiad ar ei Ymchwiliad i Gynllunio yng Nghymru ac argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth benodol o gyfraniad y broses gynllunio at ddatblygu cynaliadwy mewn adroddiad blynyddol.

Mae'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn yr adroddiad hwn wedi'u pennu yn dilyn asesiad annibynnol gan ymgynghorwyr ymchwil arbenigol o gyfraniad y system gynllunio at ddatblygu cynaliadwy. Roedd yr adroddiad ymchwil, a gyhoeddwyd yn Awst 2011, yn cynnig set o 18 o ddangosyddion[2]. Cynhaliwyd ymgynghoriad a oedd wedi'i seilio ar ganfyddiadau'r ymchwil rhwng Tachwedd 2011 ac Ionawr 2012 i ofyn am farn rhanddeiliaid[3].

Ar ôl dadansoddi'r ymateb i'r ymgynghoriad a mireinio'r fframwaith ar ôl hynny, penderfynwyd ar nifer o newidiadau. Yn benodol, cafodd y strwythur arfaethedig ei symleiddio a phenderfynwyd ar nifer llai o ddangosyddion. O ganlyniad i hyn cafwyd set o

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[2] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) Ymchwil: Fframwaith Monitro Strategol ar gyfer y System Gynllunio

[3] Welsh Assembly Government (2011) Consultation: A Strategic Monitoring Framework for the Planning System

saith dangosydd allweddol i fesur canlyniadau ar gyfer datblygu cynaliadwy o geisiadau cynllunio arwyddocaol a benderfynwyd yng Nghymru.

- SD1 Adnewyddu'r Economi – Datblygu Economaidd
- SD2 Economi Carbon Isel – Ynni Adnewyddadwy
- SD3 Mynediad i Dai Gwell – Cartrefi Newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy)
- SD4 Gwrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd – Perygl Llifogydd
- SD5 Defnyddio Tir yn Effeithlon – Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol
- SP6 Mannau Agored – Mannau Agored a Gollir/Enillir
- SD7 Seilwaith Cymunedol – Cyfraniadau at Gyfleusterau Cymunedol

Mae'r dangosyddion hyn, o'u hasesu gyda'i gilydd, yn rhoi trosolwg ar y cyfraniad gan y system gynllunio at gyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Gall awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio'r wybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau yn y dyfodol a pharatoi neu adolygu cynlluniau datblygu. Gallant ddefnyddio'r wybodaeth hefyd i ddangos sut y maent yn cyflawni eu dyletswydd, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), i gyflawni datblygu cynaliadwy.

*Gweithredu*

Dyma'r flwyddyn gyntaf o adrodd ar y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy. Ar ôl treialu'r broses adrodd ar ddechrau 2014, mae awdurdodau lleol wedi darparu datganiadau chwarterol ac mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar y data hyn. Fodd bynnag, nid ydym wedi cael yr holl ddata gan bob un o'r awdurdodau cynllunio lleol. Nid yw'r awdurdodau cynllunio lleol canlynol wedi darparu data:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir y Fflint

Mae'r awdurdodau cynllunio lleol canlynol wedi ymateb yn rhannol:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Benfro
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Powys

Mae'r awdurdodau lleol canlynol wedi ymateb yn llawn:


- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Ynys Môn


Gan fod y data a gafwyd yn anghyflawn, nid ydynt ond yn dangos rhywfaint o'r cyfraniad gan y system gynllunio at ddatblygu cynaliadwy. O ganlyniad i hyn, rydym wedi penderfynu na fyddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth mewn mannau heblaw'r adroddiad hwn eleni. Byddwn yn cydweithio ag awdurdodau cynllunio lleol y flwyddyn nesaf i wella'r ymateb o ran darparu'r data pwysig hyn.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **SD1. Yr arwynebedd llawr (metrau sgwâr) ar gyfer datblygu economaidd newydd y rhoddwyd neu y gwrthodwyd caniatâd ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn.** |

| | **Caniatawyd (metrau sgwâr)** |
|---|---|
| **Perfformiad** | 251,615 |




| | **Gwrthodwyd (metrau sgwâr)** |
|---|---|
| **Perfformiad** | 70 |




Dylai'r system gynllunio gefnogi datblygu economaidd a chyfeirio datblygiadau o'r fath i'r lleoliadau mwyaf priodol. Mae'r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth am gyfraniad y system gynllunio at ddarparu datblygu economaidd traddodiadol ar safleoedd cyflogaeth a bennwyd.


Er nad yw'r data'n gyflawn, maent yn dangos bod yr awdurdodau cynllunio a ddarparodd ddata wedi hwyluso datblygu economaidd ar 251,615 o fetrau sgwâr o arwynebedd llawr newydd. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd y system gynllunio o ran darparu tir cyflogaeth a rôl y cynlluniau datblygu mewn dyrannu tir ar gyfer datblygu economaidd.

Mae'r Adroddiadau Perfformiad Blynyddol wedi nodi bod y gyfradd ar gyfer cymryd tir cyflogaeth wedi bod yn isel mewn rhai ardaloedd oherwydd lefelau isel y galw.

| Dangosydd | SD2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn. |
|---|---|


**Caniatawyd (nifer y ceisiadau)**

| Perfformiad | 180 |
|---|---|




**Caniatawyd (MW o ynni a gynhyrchir)**

| Perfformiad | 374 |
|---|---|



Mae’r system gynllunio yn gallu hwyluso cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae’r dangosydd hwn yn rhoi gwybodaeth am gyfraniad y system gynllunio at sicrhau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel a symud at economi carbon isel.

Mae’r data’n dangos rôl y system gynllunio o ran hwyluso cymysgedd o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Yn benodol, mae’r data a ddarparwyd yn dangos bod nifer sylweddol o geisiadau cynllunio wedi’u caniatáu ar gyfer datblygiadau biomas, gwres a phŵer cyfunedig, ynni dŵr, ynni’r haul ac ynni gwynt.


| **Dangosydd** | **SD3. Nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn.** |
|---|---|

**Tai’r farchnad agored (nifer yr unedau)**

| **Perfformiad** | 6,842 |
|---|---|

**Tai fforddiadwy (nifer yr unedau)**

| **Perfformiad** | 1,498 |
|---|---|





Mae’r system gynllunio yn gallu hwyluso’r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy a thai’r farchnad agored i gwrdd ag anghenion tai lleol. Mae’r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth am gyfraniad y system gynllunio at ddarparu tai newydd.

Gan fod rhai awdurdodau cynllunio lleol heb ddarparu data, mae’n debygol bod nifer yr anheddau a gymeradwywyd yn fwy o lawer. Fodd bynnag, yn achos yr awdurdodau cynllunio lleol sydd wedi darparu data, roedd 18% o’r anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn dai fforddiadwy.


Mae’n bwysig nodi bod y data hyn yn ymwneud â nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer, nid y nifer a adeiladwyd, ac ni ellir eu cymharu â data am gwblhau tai sy’n cael eu cyhoeddi gan StatsCymru.

| Dangosydd | SD4. Nifer y ceisiadau am ganiatâd cynllunio i ddatblygu ar orlifdiroedd C1 a C2 a ganiatawyd ac a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn. |
|---|---|


| Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) NAD OEDDENT yn cwrdd â'r holl feini prawf yn TAN 15 y RHODDWYD caniatâd ar eu cyfer | |
|---|---|
| **Perfformiad** | 16 o anheddau<br>(13.8 hectar o unedau amhreswyl) |





| Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) nad oeddent yn cwrdd â'r holl feini prawf yn TAN 15 y GWRTHODWYD caniatâd ar eu cyfer ar sail perygl o lifogydd | |
|---|---|
| **Perfformiad** | 27 o anheddau<br>(0.8 hectar o unedau amhreswyl) |



| Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) a oedd yn CWRDD â'r holl feini prawf yn TAN 15 y RHODDWYD caniatâd ar eu cyfer | |
|---|---|
| **Perfformiad** | 672 o anheddau<br>(724 hectar o unedau amhreswyl) |




Mae'r system gynllunio yn chwarae rhan bwysig drwy sicrhau na fydd datblygiadau newydd yn agored i berygl o lifogydd os gellir osgoi hynny, a gall gyfeirio datblygiadau i leoliadau lle nad oes dim neu nemor ddim perygl o lifogydd. Mae'r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth am y ffordd y mae ceisiadau cynllunio am ddatblygu ar orlifdiroedd yn cael eu rheoli.

Mae'r canlyniadau yn yr awdurdodau hynny a ddarparodd ddata yn dangos mai prin iawn oedd y ceisiadau am anheddau preswyl, nad ydynt yn cwrdd â meini prawf TAN 15, a oedd wedi'u cymeradwyo mewn parthau llifogydd C1 a C2 (cyfanswm o 16 o anheddau). Gwrthodwyd caniatâd ar gyfer 27 o anheddau arfaethedig ychwanegol ar orlifdiroedd, ac mae hyn yn awgrymu mai ychydig iawn o geisiadau am ddatblygu sy'n groes i'r fframwaith

rhagofalus yn TAN 15 sy’n cael eu cyflwyno gan ddatblygwyr.  Roedd bron 1400 o anheddau newydd wedi’u cymeradwyo ar orlifdiroedd lle’r oedd y meini prawf yn TAN 15 wedi’u bodloni.

Mae’r rhan fwyaf o’r mathau o ddatblygiadau amhreswyl yn cael eu dynodi’n rhai llai agored i berygl o lifogydd yn TAN 15.  Cymeradwywyd datblygu ar bron 140 hectar o dir lle’r oedd y meini prawf yn TAN 15 wedi’u bodloni, ond roedd datblygu wedi’i gymeradwyo ar bron 14 hectar lle nad oedd y meini prawf wedi’u bodloni.

At ei gilydd, mae’r canlyniadau’n dangos bod awdurdodau cynllunio lleol yn cydnabod y risg o ganiatáu datblygu newydd mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd, a bod y cyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei dderbyn ym mwyafrif helaeth y penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Er hynny, mae’r canlyniadau hefyd yn dangos bod nifer bach o ddatblygiadau’n cael eu cymeradwyo o hyd sy’n groes i’r polisïau a’r meini prawf yn TAN 15.


| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **SD5. Arwynebedd y tir (ha) lle rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu newydd ar dir a ddatblygwyd o’r blaen a thir maes glas yn ystod y flwyddyn.** |

**Tir a ddatblygwyd o’r blaen (hectarau)**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad** | 2,625.8 o hectarau |

**Tir maes glas (hectarau)**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad** | 494.2 o hectarau |



Mae'r system gynllunio yn gallu sicrhau, lle bynnag y bo modd, mai tir a ddatblygwyd o'r blaen a ddefnyddir yn hytrach na safleoedd tir glas, yn enwedig y rheini sydd o werth amaethyddol neu ecolegol uchel.

Mae'r data hyn yn dangos bod y system gynllunio yn cyfeirio datblygiadau newydd i dir a ddatblygwyd o'r blaen gan mwyaf. Roedd 84% o'r tir y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu newydd arno'n dir a ddatblygwyd o'r blaen.

Roedd yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn dangos bod nifer o awdurdodau cynllunio lleol wedi ceisio cyfeirio datblygiadau i dir a ddatblygwyd o'r blaen yn eu Cynllun Datblygu Lleol.

Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau cynllunio lleol lle cafwyd lefelau uwch o ddatblygu ar dir maes glas yn rhai mwy gwledig ac, yn eu Hadroddiad Perfformiad Blynyddol, roeddent yn crybwyll bod diffyg tir a ddatblygwyd o'r blaen. Roedd un awdurdod cynllunio lleol hefyd wedi nodi bod dwysedd y datblygu a gymeradwywyd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen yn uwch na'r datblygu o natur fwy maestrefol ar dir maes glas.


| **Dangosydd** | **SD6. Arwynebedd y mannau agored cyhoeddus (ha) a fyddai'n cael ei golli a'i ennill o ganlyniad i ddatblygu y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer yn ystod y chwarter blwyddyn.** |
|---|---|

**Mannau agored a gollir (hectarau)**

| **Perfformiad** | 9.0 o hectarau |
|---|---|

**Mannau agored a enillir (hectarau)**

| **Perfformiad** | 22.2 o hectarau |
|---|---|



Mae mannau agored yn gallu darparu gwerth o ran hamdden, amwynder a'r amgylchedd yn ogystal â chyfrannu at amddiffyn rhag yr hinsawdd ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r dangosydd hwn yn mesur sut y mae'r system gynllunio'n diogelu mannau agored presennol ac yn hwyluso camau i ddarparu mannau agored newydd.

Mae'r data'n dangos, am yr awdurdodau cynllunio lleol a ddarparodd ddata, fod mwy o lawer o fannau agored wedi'i ennill o ganlyniad i ddatblygu newydd na'i golli. Roedd yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn tynnu sylw at rai o'r rhesymau dros golli mannau agored, ac roeddent yn cynnwys un cynllun a oedd yn galluogi datblygiad tai fforddiadwy ac un a oedd yn galluogi datblygiad ar gyfer ysgol, a'r ddau ohonynt wedi cadw a gwella ansawdd y meysydd chwarae ar y safle.


| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **SD7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) ar gyfer darparu seilwaith cymunedol y cytunwyd arnynt wrth roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu newydd yn ystod y chwarter blwyddyn.** |

**Enillwyd drwy gytundebau Adran 106 (£)**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad** | £13,098,992 |

**Enillwyd drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (£)**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad** | £463,146 |




Gellir defnyddio cyfraniadau ariannol i dalu am ddarparu seilwaith cymunedol sydd ei angen ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae'r dangosydd hwn yn mesur lefel y cyfraniadau ariannol y cytunwyd arnynt ar gyfer darparu seilwaith cymunedol.

Mae'r data'n dangos bod yr awdurdodau cynllunio lleol a ddarparodd ddatganiadau wedi sicrhau swm sylweddol o gyfraniadau ariannol i ariannu seilwaith cymunedol, drwy

gytundebau Adran 106 yn bennaf. Roedd yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn dangos bod nifer o awdurdodau cynllunio lleol wedi mabwysiadu Ardoll Seilwaith Cymunedol yn ddiweddar, neu eu bod wrthi’n ei datblygu.

## 5 – CASGLIAD

Mae proses yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn hanfodol ar gyfer asesu perfformiad wrth ddarparu gwasanaethau ac ar gyfer pennu opsiynau i'w gwella yn y dyfodol. Mae awdurdodau cynllunio lleol wedi nodi bod y broses wedi profi'n ddefnyddiol iawn at y diben hwn, gan ei bod wedi caniatáu iddynt bennu meysydd lle mae angen rhagor o waith, nodi goblygiadau o ran adnoddau a mapio llwybr ar gyfer gwella. Mae'r gwaith o baratoi'r Adroddiadau Perfformiad Blynyddol wedi bod o gymorth mawr wrth amlinellu cynlluniau busnes ac anghenion cyllidebu ar gyfer y dyfodol.

O ran adrodd yn gyffredinol ar berfformiad y system ledled Cymru, mae gwasanaeth cynllunio Cymru yn gweithredu ar lefel resymol at ei gilydd o ystyried y cyfyngiadau ar adnoddau. Er hynny, mae lle i wella eto mewn nifer o feysydd, a bydd angen rhoi sylw i'r rhain ar sail unigol a chydweithredol.

Mae Adroddiadau Perfformiad Blynyddol a gyflwynwyd gan ACLlau wedi nodi meysydd lle y bydd angen gwneud rhagor o waith yn y tymor byr a chanolig i ddelio â diffygion yn y gwasanaeth. Rydym yn bwriadu cwrdd ag awdurdodau penodol i gael rhagor o fanylion am y camau y maent am eu cymryd a meysydd lle gellir cynnig cymorth i ddarparu gwasanaethau gwell mewn ffyrdd penodol.

Cafwyd nifer o enghreifftiau hefyd o ffyrdd o fynd i'r afael ag anawsterau cyffredin a wynebir wrth weithredu a darparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnig cyfle i awdurdodau cynllunio lleol gydweithio'n fwy agos, drwy grwpiau sy'n cynnwys Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a chyda chymorth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i bennu a hyrwyddo enghreifftiau o arfer da a nodwyd yn yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol.

Hon yw blwyddyn gyntaf y broses ar gyfer darparu Adroddiadau Perfformiad Blynyddol ac mae wedi cyfleu nifer o negeseuon allweddol ynghylch y ffordd y mae'r system yn gweithredu, a pha gamau y gallem eu cymryd i'w gwella. Mae nifer o gamau gweithredu pwysig ar y gweill, ynghyd â'r newidiadau buddiol a gyflwynir o ganlyniad i weithredu Deddf Cynllunio (Cymru) ac is-ddeddfwriaeth. Rydym yn rhag-weld y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ffordd o drafod a phenderfynu ceisiadau mawr, a byddwn yn monitro'r sefyllfa'n fanwl.

Byddwn yn parhau i gydweithio ag awdurdodau i wella'r broses o gasglu data perfformiad gan geisio ysgafnhau baich y gwaith casglu, er bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi mwy o bwyslais ar yr angen i gyrff cyhoeddus Cymru ddangos sut y maent yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Yn benodol, byddwn yn cydweithio ag ACLlau i wella'r ffordd o gofnodi data am ddatblygu cynaliadwy er mwyn dangos y rôl bwysig y mae'r system gynllunio yn ei chwarae wrth hyrwyddo Cymru gynaliadwy.

Yn olaf, mae mwy o ymrwymiad i rannu arbenigedd ac adnoddau cyffredin, a bydd hyn yn helpu awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau'r allbynnau mwyaf posibl o wasanaethau wrth ddefnyddio eu hadnoddau cyfyngedig. Mae'r cydweithio rhwng awdurdodau Gogledd Cymru yn y maes hwn yn datblygu'n dda a bydd yr effaith o gydweithio agosach o ddiddordeb i awdurdodau eraill yn y dyfodol.

## TABL Y FFRAMWAITH PERFFORMIAD CYNLLUNIO – BLWYDDYN ARIANNOL 2014/15

| MESUR | CYFARTALEDD CYMRU | Blaenau Gwent | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Pen-y-bont ar Ogwr | Caerffili | Caerdydd | Sir Gaerfyrddin | Ceredigion | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd | Ynys Môn | Merthyr Tudful | Sir Fynwy | Castell-nedd Port Talbot | Casnewydd | Sir Benfro | Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro | Powys | Rhondda Cynon Taf | Parc Cenedlaethol Eryri | Abertawe | Tor-faen | Bro Morgannwg | Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwneud cynllun** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?** | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Nac oes |
| **Y gwyriad, wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd** | 47 | | | | | 70 | | | | | | 16 | 84 | | | 38 | | | | 24 | | | 30 | | 69 | |
| **Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLl** | Ydyw | Ydyw | | | Ydyw | | | Ydyw | | | | | | Ydyw | | | | Ydyw | Ydyw | | Ydyw | Ydyw | | | | |
| **Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd** | 4.2 | 2.6 | 5.5 | 6 | 2.5 | 3.6 | 4.9 | 3.7 | 4.8 | 1.8 | 3.7 | 3.7 | 4.7 | 2.5 | 5.2 | 2.5 | 9.2 | 5.3 | 2.7 | 1.5 | 2.8 | 8.3 | 2.7 | 4.7 | 7.3 | 3.1 |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol** | 24 | 11 | 40 | 24 | 24 | 8 | 29 | 20 | 14 | 32 | 17 | 47 | 28 | 60 | 50 | 35 | 20 | 17 | 22 | 25 | 11 | 50 | 6 | 9 | 22 | 41 |
| | 162 o 686 | 1 o 9 | 2 o 5 | 4 o 17 | 8 o 33 | 3 o 37 | 15 o 51 | 4 o 20 | 4 o 28 | 7 o 22 | 10 o 60 | 14 o 30 | 5 o 18 | 6 o 10 | 6 o 12 | 8 o 23 | 7 o 35 | 9 o 53 | 2 o 9 | 15 o 60 | 4 o 38 | 1 o 2 | 2 o 32 | 1 o 11 | 6 o 27 | 18 o 44 |
| **Amser ar gyfartaledd a gymerir i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau** | 206.0 | 55.0 | 200.0 | 89.0 | 150.0 | 172.0 | 104.0 | 239.5 | 378.0 | 210.5 | 203.5 | 254.5 | 155.5 | 52.5 | 94.5 | 79.0 | 301.5 | 173.0 | 128.5 | 77.5 | 343.0 | Dim data | 246.5 | Dim data | Dim data | Dim data |
| **Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol** | 72.7 | 77.1 | 88.1 | 83.9 | 68.1 | 65.3 | 73.8 | 44.3 | 76.6 | 71.1 | 71.7 | 76.0 | 74.1 | 92.5 | 76.3 | 77.7 | 69.2 | 64.0 | 85.7 | 62.5 | 79.9 | 75.0 | 71.0 | 64.7 | 80.9 | 77.0 |
| | 17591 o 24203 | 296 o 384 | 461 o 523 | 659 o 785 | 678 o 995 | 1695 o 2596 | 1283 o 1738 | 297 o 670 | 614 o 802 | 735 o 1034 | 877 o 1224 | 690 o 908 | 654 o 883 | 285 o 308 | 803 o 1053 | 649 o 835 | 730 o 1055 | 582 o 910 | 511 o 596 | 568 o 909 | 1117 o 1398 | 348 o 464 | 1232 o 1734 | 341 o 527 | 920 o 1137 | 566 o 735 |
| **Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau** | 76.4 | 54.5 | 63.0 | 29.5 | 91.5 | 39.0 | 37.5 | 171.5 | 82.0 | 81.0 | 76.5 | 84.0 | 71.0 | 49.5 | 61.5 | 55.0 | 94.0 | 80.0 | 53.5 | 35.0 | 79.0 | Dim data | 63.5 | Dim data | Dim data | Dim data |
| **Ansawdd** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion** | 10.1 | 13.0 | 11.8 | 0.0 | 2.3 | 9.8 | 13.6 | 41.9 | 8.3 | 15.8 | 8.3 | 8.1 | 5.8 | 0.0 | 3.1 | 5.6 | 3.3 | 2.2 | 5.9 | 16.7 | 1.6 | 21.4 | 23.4 | 0.0 | 0.0 | 10.8 |
| | 88 o 867 | 3 o 23 | 2 o 17 | 0 o 19 | 1 o 43 | 4 o 41 | 8 o 59 | 13 o 31 | 2 o 24 | 6 o 38 | 3 o 36 | 5 o 62 | 3 o 52 | 0 o 17 | 1 o 32 | 1 o 18 | 1 o 30 | 1 o 45 | 1 o 17 | 3 o 18 | 1 o 64 | 9 o 42 | 11 o 47 | 0 o 9 | Dim data | 9 o 83 |
| **Canran yr apeliadau a gafodd eu gwrthod** | 65.6 | 75.0 | 80.0 | 61.5 | 76.5 | 66.7 | 64.5 | 80.0 | 83.3 | 50.0 | 48.3 | 55.6 | 46.2 | 80.0 | 66.7 | 55.6 | 80.8 | 60.9 | 76.9 | 65.2 | 75.0 | 62.5 | 54.9 | 66.7 | 76.5 | 66.7 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Ymgysylltu | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?** | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Nac ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw | Ydyw |
| **A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?** | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes |
| **A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?** | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Rhan-nol | Oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Rhan-nol | Oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes |

| Gorfodi | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu hymchwilio (penderfynu a yw rheolaeth gynllunio wedi'i thorri ac, os ydyw, penderfynu a fydd mantais mewn cymryd camau gorfodi) o fewn 84 diwrnod** | 65.8 | 81.8 | 60.9 | 84.7 | 65.8 | 50.0 | 69.9 | 64.7 | 85.7 | 68.8 | 79.5 | 76.8 | 62.8 | 81.5 | 76.3 | 82.2 | 48.9 | 61.7 | 66.2 | 22.4 | 73.1 | 63.0 | 34.2 | 73.4 | 84.3 | 88.7 |
| **Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi** | 71.1 | 9.0 | 10.5 | 24.0 | 31.5 | **Dim data** | **Dim data** | 35.5 | **Dim data** | **Dim data** | 30.0 | **Dim data** | 27.5 | 4.0 | 12.0 | 2.0 | **Dim data** | 238.0 | **Dim data** | 278.5 | **Dim data** | **Dim data** | 114.5 | **Dim data** | **Dim data** | 1.0 |
| **Canran yr achosion gorfodi a ddatryswyd o fewn 180 o ddiwrnodau** | 76.8 | 53.3 | 47.5 | 93.8 | 71.1 | 75.0 | 84.9 | 66.3 | **Dim data** | **Dim data** | 73.6 | 80.3 | 81.4 | 92.6 | 67.3 | 88.5 | 81.5 | 75.6 | 74.2 | 54.3 | 87.3 | **Dim data** | 53.1 | 81.4 | 100.0 | 69.4 |
| **Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi** | 175.5 | 133.0 | 197.5 | 43.0 | 182.0 | 71.5 | 64.5 | 227.0 | **Dim data** | **Dim data** | 246.5 | 132.5 | 62.0 | 75.5 | 120.5 | 71.5 | 176.0 | 240.5 | 88.5 | 401.5 | 93.0 | **Dim data** | 184.0 | 85.0 | **Dim data** | **Dim data** |